Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Amaethyddiaeth y DU 2019-2021

## Crynodeb o'r Bil

9 Gorffennaf 2020



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 7174**
E-bost: **Katy.Orford@Senedd.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Amaethyddiaeth y DU 2019-2021
## Crynodeb o'r Bil

9 Gorffennaf 2020

**Awduron:**
Katy Orford ac Elfyn Henderson

Mae'r briff ymchwil hwn wedi'i lunio ar **bapur briffio Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin ar Fil Amaethyddiaeth y DU 2019-20** gan Sarah Coe a Jonathan Finlay.

Ar 6 Mai, daeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Senedd Cymru, a chyfeirir at y sefydliad yn gyffredin fel y Senedd. O ganlyniad, mae cyfeiriadau yn y briff ymchwil hwn yn adlewyrchu'r newid enw, ac yn cyfeirio at y sefydliad fel y 'Cynulliad' mewn cyd-destun hanesyddol (cyn 6 Mai 2020) ac fel y 'Senedd' ar ôl hynny.

# Cynnwys

**Crynodeb .......... 1**

**Cymorth presennol i'r diwydiant ffermio .......... 4**

**Bil Amaethyddiaeth 2017-19 .......... 5**

**Bil Amaethyddiaeth 2019-21 .......... 6**

Adran 1 - Cymalau newydd ym Mil 2019-2021 .......... 6

Rhan 2 - Marchnadoedd bwyd ac amaethyddol .......... 6

Rhan 3 – Tryloywder a thegwch yn y gadwyn cyflenwi bwyd-amaeth8

Rhan 4 - Materion yn ymwneud â ffermio a chefn gwlad .......... 9

Rhan 5 – Safonau marchnata, cynhyrchion organig a dosbarthu carcasau 13

Atodlen 3 - Tenantiaethau amaethyddol .......... 16

Adran 2 - Dadansoddiad o'r darpariaethau a drosglwyddwyd o Fil 2017-2019 .......... 23

Rhan 4 - Materion yn ymwneud â ffermio a chefn gwlad (yr ardoll cig coch) .......... 23

Rhan 6 - Sefydliad Masnach y Byd: Cytundeb ar Amaethyddiaeth .......... 24

Rhan 1, Atodlen 5 - Cymorth ariannol ar ôl ymadael â'r UE .......... 28

Rhan 2, Atodlen 5 – Ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol ..... 31

Rhan 3, Atodlen 5 – Casglu a rhannu data ..... 34

Rhan 4, Atodlen 5 – Safonau marchnata a dosbarthu carcasau ..... 35

Rhan 5, Atodlen 5 - Diogelu data ..... 37

# Crynodeb

**Cyflwynodd Llywodraeth y DU Fil Amaethyddiaeth** 2019-21 ('Bil 2019-21') gerbron Senedd y DU ar 16 Ionawr 2020. Ar yr un diwrnod, gwnaeth Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, ('Y Gweinidog') **ddatganiad ar achlysur cyflwyno Bil 2019-21.**.

Mae gadael yr UE yn golygu bod y DU yn gadael Polisi Amaethyddol Cyffredin yr UE. Mae Bil 2019-21 yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer parhau i wneud taliadau i ffermwyr ar lefel ddomestig. Mae gwahaniaethau rhwng gwledydd y DU yn y graddau y mae Bil 2019-21 yn darparu ar gyfer gwyro oddi wrth system gymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin.

Ar gyfer Lloegr, mae Bil 2019-21 yn gwneud darpariaeth i ddod â Thaliadau Uniongyrchol y Polisi Amaethyddol Cyffredin i ben yn raddol cyn eu terfynu, er mwyn caniatáu trosglwyddo i gynlluniau newydd. Mae'r Bil yn anelu at osod y fframwaith ar gyfer cynlluniau cymorth ariannol yn y dyfodol lle bydd ffermwyr yn cael eu talu i gynhyrchu 'nwyddau cyhoeddus' fel gwelliannau amgylcheddol neu welliannau i les anifeiliaid.

Ar gyfer Cymru, mae Bil 2019-21 yn darparu ar gyfer parhad Taliadau Uniongyrchol i ffermwyr ar ôl 2020 (Atodlen 5) gyda phwerau i 'symleiddio a gwella' Taliadau Uniongyrchol. Mae'r rhain yn bwerau trosiannol (gyda chymal machlud ar 31 Rhagfyr 2024) cyn cyflwyno Bil Amaethyddiaeth (Cymru), a ddisgwylir yn y Chweched Senedd. Mae disgwyl i Fil Cymru gyflwyno cynlluniau newydd ar gyfer rheoli tir, gan drosglwyddo o system cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin.

Ar gyfer Gogledd Iwerddon, mae Bil 2019-21 hefyd yn darparu ar gyfer parhad Taliadau Uniongyrchol (Atodlen 6). Mae'n rhoi hyblygrwydd i Weithrediaeth yn y dyfodol ddatblygu polisi amaethyddol yng Ngogledd Iwerddon.

Nid oes Atodlen sy'n gymwys yn benodol i'r Alban. Mae Llywodraeth yr Alban wedi cyflwyno **Bil Amaethyddiaeth (Cyfraith yr UE a ddargedwir a data) (Yr Alban)** ac mae'n cynnig **cadw'r cymorth a roddir i'r diwydiant ffermio yr un fath i raddau helaeth tan 2024**. Mae Bil yr Alban yn gwneud darpariaeth o 2021 ac yn caniatáu diwygio unrhyw ran o ddeddfwriaeth y Polisi Amaethyddol Cyffredin.

Yn ogystal â thaliadau amaethyddol, mae'r Bil hefyd yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol, wrth gasglu a rhannu data, o ran safonau marchnata a dosbarthu carcasau ac o ran diogelu data (Atodlen 5).

Mae Bil 2019-21 hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n gymwys i Gymru a mannau eraill. Mae'r darpariaethau ar ddiogelwch bwyd; gwrteithwyr, trefniadau adnabod ac olrhain anifeiliaid, cynhyrchion organig, a chydymffurfiad â Sefydliad Masnach y Byd yn gymwys i'r DU gyfan. Mae darpariaethau ar denantiaethau amaethyddol yn gymwys i Gymru a Lloegr yn unig; ac mae darpariaethau ar yr ardoll cig coch yn gymwys i Brydain Fawr gyfan.

Gan fod amaethyddiaeth yn faes polisi datganoledig, gofynnwyd am Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer nifer o gymalau yn y Bil (a amlinellir yn y **Nodiadau Esboniadol i Fil 2019-21 - Atodiad A.**). Gosododd Llywodraeth Cymru **ei Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil 2019-2021 ar 12 Chwefror 2020** gan ddod i'r casgliad:

> Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol defnyddio'r Bil hwn ar gyfer y DU fel cyfrwng i alluogi Llywodraeth Cymru i barhau i ddarparu cymorth ariannol i ffermwyr yng Nghymru ar ôl 2020, ac i sicrhau bod marchnadoedd amaethyddol yng Nghymru ac ar draws y DU yn gweithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Bydd rhai pwerau â chyfyngiad amser y mae'r Bil hwn yn darparu ar eu cyfer yn cael eu defnyddio hyd nes y caiff Bil Amaethyddiaeth (Cymru) ei gyflwyno yn y Cynulliad.

Mae sawl gwahaniaeth rhwng barn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch pryd mae angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 27 (rhwymedigaethau ymdriniaeth deg), 40-42 (Sefydliad Masnach y Byd), 46 (diogelu data), a 47-54 (darpariaethau cyffredinol a therfynol) y Bil. Fodd bynnag, ni nododd Llywodraeth y DU y cymalau hyn fel rhai a oedd angen cydsyniad wrth gyflwyno'r Bil. Ystyriodd Llywodraeth y DU yn ddiweddarch, fodd bynnag, bod cydsyniad yn ofynnol ar gyfer cymalau 40 i 42.

Cyhoeddodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig ei **adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol** mewn cysylltiad â Bil 2019-21 ar 14 Mai. Mae'r adroddiad yn argymell i'r Senedd roi ei chydsyniad i'r darpariaethau yn y Bil, ar yr amod ei bod yn fodlon ar ymateb y Gweinidog i bob

un o'r 29 argymhelliad yn ei adroddiad (y manylir arnynt yn y papur briffio hwn drwyddo draw).

Gosododd y Gweinidog **ei hymateb** i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil 2019-21 ar 30 Mehefin 2020.

Yn dilyn diwygiadau a wnaed i'r Bil yn Nhŷ'r Cyffredin, gosododd Llywodraeth Cymru **Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol** ar gyfer y Bil ar 11 Mehefin 2020. Daw'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol i'r casgliad, er bod "Llywodraeth Cymru'n gefnogol ar y cyfan i'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio… na ellir rhoi argymhelliad pendant i'r Senedd roi ei chydsyniad i'r Bil tan y bydd yn nes at ddiwedd ei daith trwy Dŷ'r Arglwyddi". Mae'n egluro, y caiff rhagor o Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol atodol eu gosod, os bydd angen, "gydag argymhelliad gan Lywodraeth Cymru ynghylch cydsyniad y Senedd ar yr adeg briodol." Teimlai'r **Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig** y dylid sicrhau bod amser ychwanegol ar gael yn nhymor yr hydref i graffu ar unrhyw Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ychwanegol, i alluogi'r Pwyllgor i ddod i farn wybodus am gydsyniad.

Cyhoeddodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad hefyd adroddiadau ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol sydd i'w gweld ar **wefan y Senedd**.

Mae'r Bil hwn yn dilyn Bil Amaethyddiaeth blaenorol y DU. Ar 12 Medi 2018, cyflwynodd Llywodraeth flaenorol y DU **Fil Amaethyddiaeth 2017-19** ('Bil 2017-19'). Diwygiwyd y Bil gan y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus, ond fe'i diddymwyd ym mis Hydref 2019. **Cyhoeddodd Ymchwil y Senedd erthygl** ar Fil 2017-19 a'i oblygiadau i Gymru.

Mae'r papur briffio hwn yn rhoi cefndir i'r materion ac yn disgrifio darpariaethau Bil 2019-2021. Mae'n archwilio sut mae'r Bil wedi newid ers Bil 2017-19 a sut mae gwaith y Senedd ar y Bil blaenorol wedi mynd yn ei flaen. Mae'n cynnwys barn rhanddeiliaid ar ddwy fersiwn y Bil, yn bennaf wedi'i glywed drwy waith y Pwyllgor NHAMG fel y Pwyllgor pwnc sy'n gyfrifol am graffu ar y Biliau.

# Cymorth presennol i'r diwydiant ffermio

Ar hyn o bryd mae ffermwyr yn y DU yn derbyn tua £3.5 biliwn o gymorth yn flynyddol o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Mae mwy nag 80 y cant o'r taliadau Polisi Amaethyddol Cyffredin y mae ffermwyr y DU yn eu derbyn yn Daliadau Uniongyrchol yn seiliedig ar faint o dir y maent yn ei ffermio. Mae'r gweddill yn talu'n bennaf am gynlluniau rheoli ffermydd gwledig a ffermydd amgylcheddol (gan gynnwys cynllun amaeth-amgylchedd **Glastir** yng Nghymru) o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig.

Mae Taliadau Uniongyrchol yn cyfrif am gyfran uchel o elw ffermydd yng Nghymru, o'i gymharu â gweddill y DU. Yn 2014-15, roedd Taliadau Uniongyrchol yn **cyfrif am 81 y cant ar gyfartaledd o elw net ffermydd Cymru ar gyfer pob math o fferm yng Nghymru.** Mae'r cyhoeddiad blynyddol **'Agriculture in the United Kingdom'** gan Lywodraeth y DU yn dangos bod Taliadau Uniongyrchol fel arfer yn gyfanswm o €260 – €300 miliwn y flwyddyn (ers 2014) yng Nghymru.

Mae Llywodraeth y DU **wedi gwarantu'r gyllideb flynyddol bresennol i ffermwyr** ledled y DU ym mhob blwyddyn o dymor cyfredol Senedd y DU. Dywedodd Llywodraeth y DU y bydd yr arian sy'n weddill yn yr UE o dan Golofn 2 y Polisi Amaethyddol Cyffredin (ar gyfer prosiectau datblygu gwledig ac amgylcheddol) yn parhau nes bydd cyllid cyfredol yr UE wedi'i orffen neu hyd at 2023, pa un bynnag sydd gynharaf.

Er bod **Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori** ar gynlluniau i symud i ffwrdd o'r system gymorth sy'n dilyn dull y Polisi Amaethyddol Cyffredin, cadarnhaodd y Gweinidog **y bydd Taliadau Uniongyrchol i ffermwyr yn parhau yn 2021**. Felly mae'n annhebygol y bydd y newid yn digwydd cyn 2022.

# Bil Amaethyddiaeth 2017-19

Nod Bil 2017-19 oedd darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gadael y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Roedd Atodlen 3 yn gymwys yn benodol i Gymru. Cafodd y darpariaethau hyn eu cynnwys ar gais Llywodraeth Cymru. Mae Atodlen 5 i Fil 2019-2021 yn cyflwyno llawer o'r hyn sydd yn Atodlen 3 i Fil 2017-19.

Mae Atodlen 3 yn nodi pwerau eang i Weinidogion Cymru barhau i wneud taliadau i ffermwyr a rheolwyr tir ar ôl Brexit, i wneud newidiadau i gynlluniau presennol, i gael gwared ar gynlluniau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn raddol (dros gyfnod o saith mlynedd), ac i weithredu cynlluniau newydd. Roedd Atodlen 3 hefyd yn cynnwys pwerau ynghylch casglu data, ymyrraeth y farchnad a safonau marchnata.

Roedd Bil 2017-19 hefyd yn cynnwys darpariaethau a oedd yn gymwys ar draws y DU gan gynnwys darpariaethau yn ymwneud â chydymffurfio â Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth ac ailddosbarthu'r ardoll cig coch.

O ran Bil 2017-19, gosododd Llywodraeth Cymru ei **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol** ym mis Hydref 2018, a **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol** ym mis Mawrth 2019. Lluniodd y Pwyllgor NHAMG **adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ym mis Ionawr 2019** a'r **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ym mis Mehefin 2019**. Mae manylion casgliadau'r Pwyllgor NHAMG wedi'u cynnwys trwy gydol y papur briffio hwn. **Ymatebodd y Gweinidog i'r ddau adroddiad** ar 25 Gorffennaf 2019. Bu'r **Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (sef y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad bellach)** hefyd yn ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil 2017-19, gan ganolbwyntio ar agweddau cyfansoddiadol a deddfwriaethol. Cyflwynodd **adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol** ym mis Ionawr 2019 a'r **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol** ym mis Mehefin 2019. **Ymatebodd y Gweinidog** ym mis Gorffennaf 2019.

Er bod llawer o Fil 2017-19 wedi'i ailadrodd ym mil 2019-21, mae rhai gwahaniaethau arwyddocaol. Yn bennaf, **nid yw Bil 2019-21 yn cynnwys y darpariaethau i Weinidogion Cymru newid o system cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin a chyflwyno cynlluniau amaethyddol newydd**; yn hytrach mae'n darparu ar gyfer **parhad** (a threfniadau 'symleiddio a gwella') Taliadau Uniongyrchol. Yn ogystal, mae pedair darpariaeth arwyddocaol newydd wedi'u hychwanegu at y Bil sy'n gymwys yng Nghymru ar: ddiogelwch bwyd; gwrteithwyr a threfniadau adnabod ac olrhain anifeiliaid; tenantiaethau amaethyddol; a chynhyrchion organig.

Mae darpariaethau sy'n ymwneud â thryloywder a thegwch yn y gadwyn cyflenwi bwyd-amaeth i'w gweld yn y ddau Fil ac maent wedi'u cynnwys ym Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil 2019-21. Fodd bynnag, ni wnaeth Llywodraeth Cymru gynnwys y darpariaethau hyn yn ei Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol na'i Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar gyfer Bil 2017-19.

# Bil Amaethyddiaeth 2019-21

I baratoi'r Senedd ar gyfer ei phenderfyniad cydsyniad deddfwriaethol, mae'r briff hwn yn canolbwyntio ar y darpariaethau sy'n gymwys yng Nghymru ac sydd wedi'u cynnwys ym Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Nid yw'n disgrifio'r Bil cyfan.

Mae'r adran gyntaf yn disgrifio'r cymalau newydd ym Mil 2019-21. Mae'n cynnwys tystiolaeth gan randdeiliaid ynghylch y cymalau hyn, fel a glywyd gan y Pwyllgor NHAMG ar **26 Chwefror** a **5 Mawrth** 2020.

Mae'r ail adran yn ystyried y cymalau sydd wedi'u cario drosodd o Fil 2017-19 a gwaith craffu'r Pwyllgor NHAMG hyd yma.

## Adran 1 - Cymalau newydd ym Mil 2019-2021

### Rhan 2 - Marchnadoedd bwyd ac amaethyddol

#### Diogelwch bwyd

Mae **cymal 17** yn gosod dyletswydd newydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i osod adroddiad ar ddiogelwch bwyd gerbron Senedd y DU o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Bydd yr adroddiad yn cynnwys 'dadansoddiad o ddata ystadegol'. Mae'r cymal yn nodi pum maes y 'caiff' yr adroddiad eu cynnwys, 'ymhlith pethau eraill':

- argaeledd bwyd ar lefel fyd-eang;
- cyflenwi ffynonellau bwyd;
- gwytnwch y gadwyn cyflenwi bwyd;
- gwariant aelwydydd ar fwyd; a
- diogelwch bwyd a hyder defnyddwyr mewn bwyd.

Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi:

> … [the report] will provide a broad understanding of what food security is, the challenges and risks to UK food security in a global context, and our current assessment of the state of our food security to inform our policy thinking on the resilience and security of food supply.

Nid ymdriniwyd â diogelwch bwyd ym Mil 2017-19. Gellir gweld crynodeb o'r drafodaeth ar y mater hwn a gafwyd wrth graffu ar Fil 2017-19 ar lefel y DU yn y **briff gan Lyfrgell Tŷ'r Cyffredin ar Fil 2019-21** (tudalennau 43 i 45). Mae Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin hefyd wedi cyhoeddi'n ddiweddar **erthygl blog yn trafod sut y caiff diogelwch bwyd ei fesur**.

### Tystiolaeth rhanddeiliaid ar Fil 2019-21 a chasgliadau'r Pwyllgor NAMG

Yn ystod gwaith craffu Pwyllgor NHAMG ar Fil 2019-21, roedd y tystion yn croesawu'r gofyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol osod adroddiad ar ddiogelwch bwyd gerbron Senedd y DU.

Fodd bynnag, dywedodd sawl rhanddeiliad gan gynnwys FUW a Fforwm Organig Cymru y dylai adroddiad o'r fath gael ei osod yn flynyddol, o leiaf i gychwyn arni, oherwydd Brexit.

**Daeth y Pwyllgor i'r casgliad yn ei adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol fod rhaid i'r adroddiad ar ddiogelwch bwyd gael ei lunio a'i gyhoeddi bob blwyddyn neu bob yn ail flwyddyn.**

Pwysleisiodd CLA Cymru:

> [the Welsh Government should be] included in the methodology planning for the report so that Welsh (and other Devolved Administrations) are able to extrapolate their own data to inform future policy making in the individual jurisdictions that constitute the UK.

**Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod rhaid i safbwynt Cymru gael ei adlewyrchu yn y dull o asesu diogelwch bwyd y DU.**

Dywedodd Fforwm Organig Cymru ac NFU Cymru fod diffyg rhwymedigaeth ar Weinidogion i gymryd camau i ymateb i ganfyddiadau'r adroddiad ar ddiogelwch bwyd yn fan gwan yn y Bil. Awgrymodd Cymdeithas Ffermwyr Tenant Cymru y dylai'r Bil gynnwys gofynion i Lywodraeth y DU fanylu ar dargedau diogelwch bwyd, sydd wedi'u pennu ynghyd â'r gweinyddiaethau datganoledig, gan gyflwyno adroddiad ar y graddau y maent yn cael eu bodloni.

**Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylai'r Bil gael ei ddiwygio i osod gofyniad ar Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i gyhoeddi ymateb i'r adroddiad ar ddiogelwch bwyd, a chymryd camau priodol yn dilyn yr adroddiad hwnnw.**

## Rhan 3 – Tryloywder a thegwch yn y gadwyn cyflenwi bwyd-amaeth

### Ymdriniaeth deg â chynhyrchwyr amaethyddol ac eraill yn y gadwyn gyflenwi

Mae **Cymal 27** yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i osod rhwymedigaethau ar 'fusnesau sy'n prynu cynhyrchion amaethyddol mewn perthynas â chontractau a wnânt ar gyfer prynu cynhyrchion amaethyddol gan werthwyr cymwys' (**Cymal 27(1)**). Gallai rhwymedigaethau gynnwys gofyniad i ddefnyddio contract ysgrifenedig neu i gynnwys telerau penodol mewn contract, er enghraifft ar bremiwm neu ddidyniad. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi mai pwrpas hyn yw i 'hyrwyddo ymdriniaeth deg o gontractau gan brynwyr busnes cynhyrchion amaethyddol gan werthwyr cymwys' (**Cymal 27(2)**). Dywed y Nodiadau Esboniadol na fydd y pwerau hyn 'yn cael eu harfer mewn perthynas ag unrhyw drefniadau masnachol' o fewn cylch gwaith y Dyfarnwr Cod Cyflenwi Bwydydd.

Cafodd rôl y **Dyfarnwr Cod Cyflenwi Bwydydd** ei sefydlu yn 2013 i orfodi'r **Cod Ymarfer Cyflenwi Bwydydd** ymhlith manwerthwyr bwyd a'u cyflenwyr uniongyrchol. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif o ffermwyr yn cyflenwi archfarchnadoedd yn uniongyrchol. Felly nid ydynt yn dod o dan gylch gwaith y Dyfarnwr Cod Cyflenwi Bwydydd, ac ers ei sefydlu cafwyd galwadau gan undebau ffermio i fynd i'r afael â thegwch yn y rhan hon o'r gadwyn gyflenwi mewn rhyw ffordd neu ei gilydd.

Nod **Cymal 27** yw mynd i'r afael â'r 'arferion masnachu annheg' mewn cadwyni cyflenwi bwyd-amaeth sy'n codi oherwydd y gwahaniaeth rhwng cynhyrchwyr amaethyddol sylfaenol y mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi eu bod 'yn tueddu i fod yn fusnesau bach, unigol sy'n gweithredu heb gysylltiadau cryf rhyngddynt' o gymharu â gweithredwyr eraill yn uwch i fyny yn y gadwyn gyflenwi, sydd 'fel rheol yn fusnesau cydgysylltiedig iawn sydd â chyfranddaliadau sylweddol yn y farchnad berthnasol'.

Mae'n werth nodi bod Bil 2019-21 wedi ehangu'r cwmpas ar gyfer defnyddio'r pwerau hyn, o'i gymharu â Bil 2017-19. Yn flaenorol, roedd y 'gwerthwr cymwys' yn gyfyngedig i'r 'cynhyrchydd' a dim ond y 'prynwyr cyntaf' oedd yn dod o dan y gofyniad, yn hytrach na 'phrynwyr busnes' yng ngeiriad cyfredol y Bil.

**Mae'r cymal hwn wedi'i gynnwys ym Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw Nodiadau Esboniadol Llywodraeth y DU yn nodi'r cymal fel un sydd angen cydsyniad deddfwriaethol gan y Senedd.**

Tystiolaeth rhanddeiliaid ar Fil 2019-21 a chasgliadau'r Pwyllgor NAMG

Roedd y tystion yn croesawu'r darpariaethau sy'n ymwneud ag ymdriniaeth deg o fewn y gadwyn gyflenwi, ond roeddent yn pwysleisio y byddai'n dibynnu'n helaeth ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth.

Pwysleisiodd CLA Cymru fod y rhan fwyaf o fusnesau gwledig Cymru yn rai bach neu ganolig gyda chwmpas cyfyngedig i bennu prisiau i'r busnesau y maent yn eu cyflenwi, ac felly dylai gofynion ymdriniaeth deg fod yn orfodol.

Roedd Fforwm Organig Cymru'n cytuno, gan nodi ei fod yn 'siomedig iawn' mai pŵer disgresiwn oedd hwn yn hytrach na dyletswydd i weithredu.

Rhybuddiodd FUW yn erbyn gosod gofynion ar y busnesau lleiaf gan y gallai hyn weithio yn eu herbyn (o ran datguddio gwybodaeth fasnachol sensitif) ac felly roeddent yn argymell y dylid cymhwyso trothwy trosiant busnes priodol.

**Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylai'r Gweinidog roi eglurder o ran pa asesiad y mae wedi'i wneud o effaith ar gynhyrchwyr bwyd Cymru yn sgil y darpariaethau ar ymdriniaeth deg. Dylai'r Gweinidog hefyd roi eglurder ynghylch a yw wedi ystyried p'un a ddylai busnesau nad ydynt yn cyrraedd trothwy trosiant penodol gael eu heithrio rhag gofynion penodol o ran casglu data.**

## Rhan 4 - Materion yn ymwneud â ffermio a chefn gwlad

### Gwrteithwyr

Mae **Cymal 31** yn diwygio *Deddf Amaethyddiaeth 1970* ('Deddf 1970') i adlewyrchu newidiadau yn y diwydiant gwrteithwyr. Mae'r diwygiadau'n ymwneud â rheoleiddio gwrteithwyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r tair gweinyddiaeth ddatganoledig. Nid ymdriniwyd â'r mater hwn ym Mil 2017-19.

O dan Ddeddf 1970, diffinnir gwrtaith fel rhywbeth 'a ddefnyddir i dyfu cnydau neu blanhigion o unrhyw ddisgrifiad, gan gynnwys coed'. Mae'r **Memorandwm Pwerau Dirprwyedig** yn nodi bod hyn wedi arwain at ganolbwyntio ar wrteithwyr mwynau, a nod y darpariaethau newydd yw adlewyrchu ymddangosiad

cynhyrchion arloesol (megis bio-symbylyddion a chyflyrwyr pridd a chynhyrchion gwella pridd). O gynnwys y darpariaethau hyn yn y Bil, y nod yw annog llai o ddibyniaeth ar ddeunyddiau anadnewyddadwy, a thynnu sylw at y canlyniadau negyddol yn sgil defnyddio gwrtaith, gan gynnwys allyriadau a halogi priddoedd a dyfrffyrdd.

Mae **Cymal 31(2)** o'r Bil yn ymestyn diffiniad gwrtaith i ganiatáu ar gyfer 'rheoleiddio'r farchnad arloesol newydd hon yn briodol'.

Mae **Cymal 31(3**) yn caniatáu rheoleiddio gwrteithwyr ar sail eu 'swyddogaeth', yn ychwanegol at reoleiddio ar sail 'cyfansoddiad neu gynnwys' gwrteithwyr fel o dan Ddeddf 1970, gan ganiatáu i wahanol ofynion gael eu gosod ar gyfer gwahanol fathau o wrtaith (e.e. cyflyrwyr pridd a chynhyrchion gwella pridd, plannu bio-symbylyddion, atalydd gwrtaith / ychwanegyn gwrtaith, cyfrwng tyfu a gwrtaith cymysg).

Mae **Cymal 31(4**) yn mewnosod is-adrannau newydd yn Neddf 1970 sy'n nodi y caiff rheoliadau ddarparu ar gyfer:

- gweithdrefnau i asesu cyfansoddiad, cynnwys neu swyddogaeth gwrteithwyr (gan gynnwys cofrestriad deunyddiau, unigolyn neu sefydliad a fydd yn cynnal asesiadau, a darpariaeth ar gyfer ffioedd ac apeliadau);
- swyddogaethau goruchwylio a rheoleiddio marchnad i'w dirprwyo i awdurdod cyhoeddus (a phwerau gorfodi y gellir eu dirprwyo gan gynnwys y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i gynhyrchion gael eu tynnu'n ôl rhag eu gwerthu); a
- chadw a darparu gwybodaeth gan wneuthurwyr ac eraill sy'n ymwneud â chyflenwi gwrteithwyr.

Mae **Cymal 31(4**) hefyd yn caniatáu i'r rheoliadau hyn ddiwygio a diddymu **Rheoliad yr UE 2003/2003 yn ymwneud â gwrteithwyr**, a deddfwriaeth uniongyrchol arall yr UE a ddargedwir. Mae'r Memorandwm Pwerau Dirprwyedig yn egluro bod y rheoliad hwn eisoes i'w ddiddymu gan **Reoliad newydd yr UE 2019/1009**, sydd i'w gymhwyso bob yn dipyn. Felly bydd cymal 31(4) yn caniatáu i'r elfennau hynny o'r rheoliad newydd sy'n dod yn gyfraith yr UE a ddargedwir gael eu diwygio neu eu diddymu os ydynt yn anghyson â'r drefn ddomestig newydd.

Bydd y rheoliadau cyntaf a wneir sy'n ymwneud â gwrteithwyr o dan y cymalau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, fel y nodir yng **Nghymal 31(5)**. Byddai unrhyw reoliadau eraill sy'n rhoi swyddogaethau goruchwylio'r farchnad i awdurdod cyhoeddus hefyd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn hon, fel y byddai unrhyw reoliadau sy'n diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir.

## Tystiolaeth rhanddeiliaid ar Fil 2019-21 a chasgliadau'r Pwyllgor NAMG

Ar y cyfan, roedd y tystion yn fodlon ar y darpariaethau ynghylch gwrteithwyr. Fodd bynnag, roedd y tystion a oedd yn cynrychioli'r sector organig yn dweud yr hoffent weld hollt cliriach rhwng gwrteithwyr organig a gwrteithwyr nad ydynt yn organig.

Ni wnaeth y Pwyllgor ddod i unrhyw gasgliadau ynghylch y darpariaethau ar wrteithwyr.

## Adnabod ac olrhain anifeiliaid

Mae'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth yn arwain ar y gwaith o ddatblygu gwasanaeth newydd ar gyfer gwybodaeth, adnabod ac olrhain da byw aml-rywogaeth. Gelwir y gwasanaeth yn System Gwybodaeth Da Byw ac mae **gweledigaeth y rhaglen** yn nodi:

> Working in partnership, Defra and industry will develop world leading standards of livestock traceability in the UK. This will deliver a competitive trade advantage, make us more resilient and responsive to animal disease and will drive innovation, interoperability and productivity improvements throughout the meat and livestock sectors.

Mae'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth wedi dweud bod disgwyl i'r System Gwybodaeth Da Byw gael ei chwblhau 'erbyn diwedd 2020'.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal system **EID Cymru**, sef system gofnodi electronig ar gyfer symud defaid a geifr yng Nghymru.

Mae **Cymal 32** yn diwygio *Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006* ('Deddf 2006') i alluogi'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (a sefydlwyd gan bwerau o dan y Ddeddf honno) i reoli'r system newydd.

Mae **Cymal 32(1)** yn ychwanegu adran newydd at Ddeddf 2006 sy'n caniatáu i 'fwrdd a sefydlir o dan y Ddeddf honno' gael swyddogaethau sy'n ymwneud â chasglu, rheoli ac argaeledd gwybodaeth am iechyd, symud ac adnabod anifeiliaid. Mae'r Memorandwm Pwerau Dirprwyedig yn nodi bod 'y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth mewn sefyllfa ddelfrydol i allu cyflwyno'r rhaglen a'r gwasanaeth newydd', ond mae hefyd yn nodi bod aseinio'r swyddogaethau yn y modd hwn hefyd yn golygu y gallent gael eu dirprwyo i unrhyw fwrdd newydd a sefydlir o dan y Ddeddf heb yr angen am ddeddfwriaeth sylfaenol bellach.

Gellir rhoi swyddogaethau hefyd yn ymwneud â'r dull o adnabod anifeiliaid (h.y.

fformat tagiau adnabod, a chyhoeddi rhifau adnabod unigol). Mae adran 8 o *Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981* yn darparu pŵer i wneud gorchmynion 'ar gyfer rhagnodi a rheoleiddio'r broses o farcio anifeiliaid'. Mae hyn yn cael ei ddiwygio gan **Gymal 32(2)** i ddisodli'r cyfeiriad at 'farcio anifeiliaid' â 'modd o adnabod anifeiliaid' mewn perthynas â Lloegr yn unig. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi y bydd yn caniatáu i is-ddeddfwriaeth gysylltiedig adlewyrchu technolegau newydd. Ar gyfer Cymru a'r Alban mae'r disgrifiad 'marcio anifeiliaid' yn aros fel y mae.

Mae'r Cymal hwn hefyd yn pennu y gall gorchmynion o dan yr adran hon rwymo'r Goron (mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi bod hyn yn golygu y bydd anifeiliaid y Goron, fel ceffylau heddlu, yn cael eu cynnwys).

Mae cymalau 32(3) a 32(4) yn diwygio dau o reoliadau'r UE, (**Rheoliad 1760/2000** ar adnabod gwartheg, a **Rheoliad 21/2004** ar adnabod defaid a geifr) i'w hanghymhwyso mewn perthynas â Lloegr (yn amodol ar gychwyn y cymalau hynny). Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi y bydd hyn yn caniatáu i reoliadau penodol yr UE, ar ôl iddynt ddod yn gyfraith yr UE a ddargedwir, gael eu hanghymhwyso a'u disodli gan orchymyn newydd heb yr angen am ddeddfwriaeth sylfaenol bellach. Nid yw'r newidiadau hyn yn gymwys i Gymru. O'r herwydd, byddai angen deddfwriaeth sylfaenol bellach i wneud newidiadau tebyg i Gymru yn y dyfodol.

**Tystiolaeth rhanddeiliaid ar Fil 2019-21 a chasgliadau'r Pwyllgor NAMG**

Mynegodd y tystion bryder bod y darpariaethau yn nodi AHDB fel y corff i ddatblygu'r LIS newydd, gan nad yw AHDB yn atebol i Lywodraeth Cymru. Pwysleisiodd FUW fod AHDB yn fwrdd Seisnig mewn gwirionedd, ac y byddai ganddo'r pŵer nid yn unig i gasglu data ond hefyd i benderfynu ar bolisïau ym maes iechyd anifeiliaid, trefniadau olrhain ac adnabod.

**Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylai'r Gweinidog egluro'n fanwl sut y bydd yn mynd i'r afael â'r problemau o ran diffyg atebolrwydd y Bwrdd hwnnw i Lywodraeth Cymru.**

Pwysleisiodd y tystion hefyd fod angen i system adnabod da byw Llywodraeth Cymru, EIDCymru, a system newydd y DU gyfan gyd-fynd â'i gilydd. **Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf o ran ei dealltwriaeth o sut y bydd y system adnabod da byw newydd yn cyd-fynd ag EIDCymru, ynghyd â'r gwaith sy'n mynd rhagddo i sicrhau eu bod yn cyd-fynd.**

## Rhan 5 – Safonau marchnata, cynhyrchion organig a dosbarthu carcasau

Dim ond ar gyfer y Cymalau yn y Rhan hon sy'n ymwneud â chynhyrchion organig y ceisir cydsyniad deddfwriaethol.

### Cynhyrchion organig

Mae **cymal 36** yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol, a lle bo hynny'n berthnasol, Weinidogion datganoledig, i wneud darpariaethau newydd neu ddiwygio darpariaethau sy'n bodoli eisoes ynghylch tystysgrifau organig, mewnforio ac allforio cynhyrchion organig a gorfodi trefniadau rheoleiddio organig. Dyma adran newydd a ychwanegwyd ar gyfer Bil 2019-21. Mae'n caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau organig newydd a diwygio'r drefn bresennol.

Mae'r Memorandwm Pwerau Dirprwyedig yn esbonio bod rheoliadau cyfredol ar gynhyrchion organig yn dod yn gyfraith yr UE a ddargedwir ar ddiwedd y cyfnod gweithredu ar 31 Rhagfyr 2020. Fodd bynnag, nid oes ond pwerau cyfyngedig i'w diwygio. Gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwygio rheolau, er enghraifft i adlewyrchu safonau amgylcheddol y DU neu unrhyw gytundebau masnach yn y dyfodol. Mae'n nodi bod angen y pŵer newydd felly i alluogi newidiadau ehangach i'r gyfraith ar ôl diwedd y Cyfnod Gweithredu.

Mae **Cymal 36(1)** yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau mewn perthynas â thystysgrifau organig, sef y prif fodd o reoleiddio cynhyrchion organig. Gall tystysgrifau fod yn dystysgrif ar gyfer cynhyrchion organig, gweithgareddau sy'n ymwneud â chynhyrchu organig, gan gynnwys paratoi, prosesu, dosbarthu a marchnata, ac unigolion sy'n cyflawni gweithgareddau sy'n ymwneud â chynhyrchion organig.

Mae **Cymal 36(2)**, **(3)** a **(4)** yn ehangu ar **Gymal 36(1)**.

- Mae **Cymal 36(2)(a)** yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth sy'n ymwneud ag "awdurdodau ardystio". Mae hyn yn caniatáu i weithgareddau ardystio gael eu dirprwyo, er enghraifft gan yr Awdurdod Cymwys i Gyrff Rheoli preifat, fel sy'n digwydd yn achos y drefn organig gyfredol;
- Mae **Cymal 36(3)** yn nodi rhestr anghynhwysfawr o ddibenion y gellir gwneud darpariaethau ar eu cyfer o ran amcanion, egwyddorion a safonau cynhyrchu organig mewn perthynas â thystysgrifau organig; ac
- Mae **Cymal 36(4)** yn ehangu ar y darpariaethau y gellir eu gwneud o dan

**Gymal 36(1)** mewn perthynas â labelu, marchnata a gwerthu cynhyrchion organig.

Mae **Cymal 36(5)** yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth mewn perthynas â mewnforio cynhyrchion organig i'r DU. Mae **Cymal 36(6)** yn nodi'r amgylchiadau lle gellir gwneud cyfyngiadau neu waharddiadau ar fewnforio cynhyrchion organig. Mae'r amgylchiadau hyn yn cynnwys sefyllfa lle cydnabyddir bod mewnforion yn cydymffurfio neu'n cyfateb â'r safonau organig sy'n gymwys yn y DU, neu lle mae cytundeb masnach ar waith.

Mae **Cymal 36(7)** yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth mewn perthynas ag allforio cynhyrchion organig o'r DU i wledydd tramor, gan gynnwys gweithdrefnau allforio.

Dyma weddill is-adrannau **Cymal 36**:

- **Cymal 36(8)(a)** sy'n rhoi pŵer cyffredinol i wahardd marchnata, gwerthu neu weithgareddau cynhyrchu organig eraill mewn achosion o ddiffyg cydymffurfio, a **Chymal 36(8)(b)** sy'n rhoi pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer codi ffioedd mewn perthynas â swyddogaethau sy'n ymwneud â thystysgrifau organig;
- **Cymal 36(8)(c), (9)** a **(10)** sy'n cynnwys darpariaeth ynghylch gorfodaeth. **Cymal 36(9)** sy'n caniatáu i'r rheoliadau wneud darpariaeth:
    - ar gyfer rhoi pwerau mynediad, ymchwilio, chwilio ac atafaelu;
    - ynghylch darparu, defnyddio a chadw gwybodaeth;
    - ar gyfer cadw cofnodion;
    - ar gyfer gorfodi cosbau ariannol;
    - ar gyfer creu troseddau diannod y gellir eu cosbi â dirwy (neu ddirwy nad yw'n fwy na swm a bennir yn y rheoliadau); ac
    - ar gyfer rhoi swyddogaethau i berson.
- **Cymalau 36(11)** a **(12)** sy'n diffinio'r termau "marchnata", "cynhyrchu organig" a "chynnyrch organig"; a
- **Cymal 36(13)** sy'n nodi'r mathau o gynhyrchion sy'n gymwys i gael tystysgrif organig.

**Cymal 37(1)** sy'n estyn y pwerau yng **Nghymal 36** i Weinidogion yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon lle bo hynny o fewn cymhwysedd deddfwriaethol.

Mae **Cymalau 37(2)** a **(3)** yn ymwneud â'r weithdrefn seneddol i'w defnyddio ar gyfer gwneud darpariaethau. Rhaid i reoliadau ddilyn y weithdrefn gadarnhaol bob tro y defnyddir y pwerau pan fyddant yn ymwneud ag amcanion, egwyddorion a safonau cynhyrchu organig. Rhaid i ddarpariaethau eraill ddilyn y weithdrefn

gadarnhaol pan ddefnyddir y pwerau am y tro cyntaf, a'r weithdrefn negyddol wedi hynny.

**Tystiolaeth rhanddeiliaid ar Fil 2019-21 a chasgliadau'r Pwyllgor NAMG**

Dywedodd cynrychiolwyr o'r sector organig wrth y Pwyllgor nad ymgynghorwyd â nhw yn ystod datblygiad y Bil. Fodd bynnag, meddent fod llawer o fanylion y darpariaethau i'w cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth. Roeddent yn disgwyl yr ymgynghorwyd â nhw ar yr adeg honno.

Roeddent hefyd yn pryderu am sicrhau eu bod yn cyd-fynd ac yn cydymffurfio yn y dyfodol â rheoliadau organig newydd yr UE ar ddiwedd y cyfnod pontio ar 31 Rhagfyr 2020. Mae disgwyl i reoliadau newydd yr UE ddod i rym ar 1 Ionawr 2021, ac nid yw'n eglur sut y bydd rheoliadau'r DU yn y dyfodol yn cyd-fynd â'r rheoliadau hyn. Dywedodd Fforwm Organig Cymru:

> New EU organic regulation (848/2018) requires that third countries are compliant with E.U Regulation via a trade agreement. Historically equivalence was acceptable.

Dywedodd cyfranwyr mai eu canlyniad delfrydol fyddai pe ceid cytundeb masnach cynhwysfawr rhwng y DU a'r UE a fyddai'n cynnwys cytundeb ynghylch cyd-fynd â rheoliadau organig.

**Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylai'r Gweinidog nodi ei barn o ran trefniadau cyd-fynd a chydymffurfio â rheoliadau'r UE yn y dyfodol, a rhoi diweddariad ynghylch sut y mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y trafodaethau â Llywodraeth y DU.**

Roedd sawl cyfrannwr hefyd yn pryderu am statws cynhyrchion organig mewn unrhyw gytundeb masnach â gwledydd eraill yn y dyfodol, gan gynnwys â'r UDA. Roeddent yn pryderu y gallai cynhyrchion a gaiff eu mewnforio eu labelu fel rhai organig, ond eu bod yn ddarostyngedig i wahanol safonau i'r DU, sydd ar brydiau'n safonau gwannach.

**Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylai'r Gweinidog egluro sut y mae am geisio sicrhau na chaiff safonau organig cyfredol Cymru eu tanseilio gan gytundebau masnach yn y dyfodol.**

Dywedodd cynrychiolwyr o'r sector organig wrth y Pwyllgor y gallai gwahaniaeth mewn safonau a gofynion i gynhyrchion organig ar draws gwledydd y DU ychwanegu cymhlethdod i gynhyrchwyr yn y DU gan esgor ar risg o faentumio'r

farchnad fewnol.

**Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylai'r Gweinidog nodi a yw'n credu y dylai safonau cyffredin gael eu cynnal ar draws y DU mewn perthynas â chynhyrchion organig.**

## Atodlen 3 - Tenantiaethau amaethyddol

Mae **Atodlen 3** yn darparu ar gyfer tenantiaethau amaethyddol. Nid ymdriniwyd â thenantiaethau amaethyddol ym Mil 2017-19 ond roeddent yn destun **ymgynghoriad Llywodraeth Cymru rhwng Ebrill a Gorffennaf 2019**. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar yr un pryd ag **ymgynghoriad tebyg iawn gan Defra** ar gyfer Lloegr.

Roedd yr ymgyngoriadau yn dilyn **gwaith y Grŵp Diwydiant Diwygio Tenantiaeth**, sef grŵp cynghori diwydiant i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, a nododd sawl maes o ddeddfwriaeth tenantiaeth amaethyddol a gyflwynai rwystrau posibl i gynhyrchiant ynghyd â newid strwythurol.

Roedd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn gofyn am sylwadau ar yr opsiynau o ran diwygio cyfraith tenantiaeth amaethyddol yng Nghymru ac roedd hefyd yn cynnwys galwad am dystiolaeth ar faterion eraill i lywio polisi yn y dyfodol. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn gyhoeddus i ymatebion yr ymgynghoriad eto.

Mae rhai o'r materion a godwyd yn yr ymgynghoriad wedi'u cynnwys ym Mil 2019-20, yn benodol ynghylch cymalau cyfyngol mewn cytundebau tenantiaeth a gweithdrefnau olyniaeth. Ceir hefyd ddarpariaethau ym Mil 2019-20 yn ymwneud â chyflafareddu a phenderfyniad trydydd parti, nad ymdriniwyd â hwy yn yr ymgynghoriad.

Yn ei **ddatganiad deddfwriaethol ar 16 Gorffennaf 2019** dywedodd y Prif Weinidog, Mark Drakeford, wrth y Cynulliad y byddai Bil Amaethyddiaeth Cymru, sydd i'w gyflwyno yn y Chweched Senedd, yn 'edrych ar faterion ehangach fel hawliau ffermwyr tenant'. Cyn y Bil bydd ymgynghoriad Papur Gwyn, a ddisgwylir cyn diwedd y Senedd hon.

### Cefndir i denantiaethau

Mae dau brif fath o denantiaeth amaethyddol:

- **Tenantiaethau Deddf 1986** sy'n cael eu llywodraethu gan *Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986* (y rhai y cytunwyd arnynt cyn 1 Medi 1995); a
- **Tenantiaethau Busnes Fferm** sy'n cael eu llywodraethu gan *Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995* (y rhai y cytunwyd arnynt ar ôl 1 Medi 1995).

Cafodd *Deddf Daliadau Amaethyddol 1986* (Deddf 1986) ei chyflwyno i roi mwy o sicrwydd i ffermwyr tenant. Yn gyffredinol, mae gan denantiaethau a roddwyd o dan Ddeddf 1986 sicrwydd deiliadaeth oes, ac mae gan y rhai a roddwyd cyn 12 Gorffennaf 1984 hefyd hawliau olyniaeth statudol, ar adeg marwolaeth neu ymddeoliad.

Cafodd *Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995* (Deddf 1995) ei chyflwyno i ddarparu fframwaith symlach, mwy hyblyg i annog mwy o osodiadau amaethyddol. Mae Tenantiaethau Busnes Fferm yn darparu fframwaith hyblyg; gallant amrywio o ran hyd; ac nid oes iddynt hawliau olyniaeth statudol.

Mae dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru yn nodi bod nifer tenantiaethau Deddf 1986 yn gostwng yn naturiol, a chan ddilyn tueddiadau presennol ni fyddant yn rhan fawr o'r sector tenantiaid erbyn tua 2050; mae'r rhan fwyaf o'r tir ar ôl tenantiaethau Deddf 1986 yn cael ei ailosod fel Tenantiaeth Busnes Fferm.

Mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau tenantiaeth yn y Bil Amaethyddiaeth yn gysylltiedig â Deddf 1986.

## Cyflafareddu a phenderfyniad trydydd parti

Ar hyn o bryd mae Deddf 1986 yn caniatáu i landlordiaid neu denantiaid, trwy roi hysbysiad, fynnu bod adolygiad rhent neu anghydfod arall yn cael ei atgyfeirio i'w gyflafareddu. Os na all y partïon gytuno ar gyflafareddwr, gall y tenant neu'r landlord wneud cais i Lywydd Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig i benodi cyflafareddwr.

Ychwanegodd **Deddf Dadreoleiddio 2015** fecanwaith amgen lle gallai'r landlord a'r tenant atgyfeirio adolygiad rhent at drydydd parti annibynnol i benderfynu yn ei gylch. Yn ymarferol, bydd y trydydd parti yn arbenigwr yn y maes, yn fwyaf tebygol yn asiant tir profiadol.

Mae Bil 2019-21 yn gwneud diwygiadau i Ddeddf 1986 sy'n ymdrin â'r broses ar gyfer cyfeirio anghydfod ynghylch adolygu rhent at broses gyflafareddu/penderfynu, yn ogystal â'r cyrff a all benodi cyflafareddwyr mewn amryw anghydfodau.

Mae **paragraffau 2 a 3** (o **Atodlen 3**) yn diwygio Deddf 1986 i ddisodli'r galw am gyflafareddu â "hysbysiad o benderfyniad" a all ragflaenu'r naill neu'r llall o'r ddau fecanwaith a drafodir uchod. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi y bydd hyn yn caniatáu i'r partïon gytuno i benodi trydydd parti i ddatrys anghydfod ar unrhyw adeg cyn dyddiad yr adolygiad rhent, fel dewis arall yn lle cyflafareddu.

Mae **paragraffau 4, 5 a 6** yn diwygio Deddf 1986 fel y gall "awdurdodau proffesiynol" eraill benodi cyflafareddwyr hefyd, sef Llywydd Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol a Chadeirydd Cymdeithas y Gyfraith Amaethyddol, yn ychwanegol at Lywydd Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi y bydd hyn yn rhoi mwy o ddewis i denantiaid a landlordiaid.

Mae Bil 2019-21 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, mewn perthynas â Chymru, (a'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr) wneud rheoliadau i ddiwygio'r rhestr o awdurdodau proffesiynol ymhellach. Pŵer Harri VIII yw hwn gan ei fod yn cynnwys diwygio deddfwriaeth sylfaenol. Mae'r **Memorandwm Pwerau Dirprwyedig** yn nodi mai'r weithdrefn negyddol (sef yr opsiwn diofyn ar gyfer rheoliadau o dan Ddeddf 1986) sy'n briodol 'o ystyried cwmpas cyfyngedig y pŵer'. Mae hefyd yn nodi y bydd unrhyw newidiadau a gyflwynir trwy reoliadau yn cael eu datblygu mewn ymgynghoriad â'r diwydiant.

Mae **paragraffau 23 i 29** hefyd yn diwygio Deddf 1995 i wneud newidiadau tebyg yn ymwneud ag awdurdodau proffesiynol a all benodi cyflafareddwyr mewn anghydfodau o dan y Ddeddf honno. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi y bydd unrhyw newidiadau i'r diffiniad hwn yn Neddf 1986 (gan reoliadau, fel y disgrifir uchod) hefyd yn berthnasol i Ddeddf 1995.

## Ceisiadau am gydsyniad y landlord

Mae ffermwyr tenant wedi codi cwestiynau ynghylch cymalau cyfyngol mewn cytundebau tenantiaeth a allai ei gwneud yn anodd cael gafael ar gymorth o dan gynllun 'nwyddau cyhoeddus' yn y dyfodol.

Roedd **ymateb Cymdeithas y Ffermwyr Tenant** i ymgynghoriad Defra ar ddiwygio trefniadau tenantiaeth (yn Lloegr) yn datgan bod nifer o denantiaid wedi'u cyfyngu i ddefnyddio eu daliadau at ddibenion amaethyddol yn unig, ac y byddent yn cael eu 'difreinio' pe na bai landlordiaid yn rhoi cydsyniad iddynt gael mynediad at gynlluniau newydd sy'n darparu arian cyhoeddus ar gyfer nwyddau cyhoeddus. Hyd yn oed os rhoddir cydsyniad, mynegodd Cymdeithas y Ffermwyr Tenant bryder y gallai landlordiaid ddefnyddio hyn i 'wneud gofynion afresymol i denantiaid'.

Mae **paragraff 7** yn mewnosod adran 19A yn Neddf 1986 sy'n ymdrin ag anghydfodau sy'n ymwneud â cheisiadau am gydsyniad y landlord neu amrywiad o ran telerau'r denantiaeth. Mae'r paragraff hwn yn ymwneud â cheisiadau a wneir at ddibenion galluogi tenant i dderbyn 'cymorth ariannol perthnasol' neu gydymffurfio â dyletswyddau statudol (gan gynnwys o dan gyfraith yr UE a ddargedwir).

Rhoddir pŵer i Weinidogion Cymru, mewn perthynas â Chymru, (a'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr) wneud rheoliadau sy'n nodi mathau o gymorth ariannol neu ddyletswyddau statudol y gall y cais ymwneud â hwy, yn ogystal ag unrhyw amodau eraill.

Diffinnir 'cymorth ariannol perthnasol' ym **Mharagraff 7(7)**. Mae'r diffiniad ar gyfer Cymru yn ymwneud â mynediad y tenant at gymorth ariannol dan amodau eithriadol y farchnad, o dan **Baragraff 7** o **Atodlen 5** (gweler isod) neu er mwyn i'r tenant fodloni rhwymedigaeth statudol.

Mae'r diffiniad ar gyfer Lloegr yn ehangach nag ar gyfer Cymru oherwydd ei fod hefyd yn cynnwys gallu'r tenant i gael mynediad at gyllid o dan gynllun nwyddau cyhoeddus neu 'gynllun trydydd parti', ac mae'r cymalau perthnasol yn gymwys i Loegr yn unig. Disgwylir i Gynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig Cymru, sy'n cyfateb i gynllun nwyddau cyhoeddus Lloegr, gael ei gynnwys ym Mil Amaethyddiaeth Cymru sydd i'w gyflwyno yn y Chweched Senedd.

Gall y rheoliadau ddarparu i denant allu atgyfeirio cais o'r fath i'w gyflafareddu os na ddaethpwyd i gytundeb, ac y gall y landlord a'r tenant gyfeirio'r cais at drydydd parti i benderfynu yn ei gylch. Mae'r Memorandwm Pwerau Dirprwyedig yn nodi y bydd y broses datrys anghydfodau yn cael ei dylunio mewn ymgynghoriad â thenantiaid a landlordiaid, ac y gellir adolygu ac addasu rheoliadau o dan y paragraff hwn wrth i'r cynlluniau cymorth ariannol newydd gael eu cyflwyno.

## Olyniaeth tenantiaeth

Mae **Paragraffau 10 i 18** yn gwneud newidiadau i weithdrefnau olyniaeth o dan Ddeddf 1986, i gael gwared ar rai cyfyngiadau a diwygio'r darpariaethau ynghylch pennu addasrwydd ymgeiswyr.

Mae tenantiaethau o dan Ddeddf 1986 a roddwyd cyn 12 Gorffennaf 1984 yn esgor ar hawliau olyniaeth statudol, ar ôl marwolaeth neu ymddeoliad, ar gyfer perthnasau agos ar yr amod bod y darpar olynydd yn bodloni meini prawf cymhwysedd penodol. Gall tenant o dan Ddeddf 1986 hefyd enwi olynydd i

gymryd cyfrifoldeb am y daliad pan fydd yn ymddeol, gydag amodau tebyg ar gyfer olyniaeth i'r rhai sy'n berthnasol ar olyniaeth ar ôl marwolaeth. Gall perthynas agos i'r tenant sydd wedi marw neu wedi ymddeol wneud cais i'r Tribiwnlys perthnasol - sef y **Tribiwnlys Tir Amaethyddol** yng Nghymru - er mwyn olynu'r denantiaeth.

Rhaid i'r Tribiwnlys fod yn fodlon bod yr ymgeisydd yn gymwys ac yn addas. Ar hyn o bryd, mae cymhwysedd yn cynnwys y Prawf Uned Fasnachol, sy'n golygu nad yw ymgeisydd yn gymwys os yw eisoes yn meddiannu uned fasnachol o dir amaethyddol. Roedd yr ymgynghoriad ar ddiwygio tenantiaeth yn nodi bod y Prawf Uned Fasnachol bellach yn anghydnaws ag 'amcanion polisi Llywodraeth Cymru o wella cynhyrchiant ffermio trwy annog trosglwyddo tir i ddwylo ffermwyr masnachol medrus'.

Wrth bennu addasrwydd - y Prawf Addasrwydd - mae'n ofynnol ar hyn o bryd i'r Tribiwnlys ystyried 'yr holl faterion perthnasol' gan gynnwys profiad o amaethyddiaeth, oedran, iechyd corfforol, statws ariannol a barn y landlord. Roedd yr ymgynghoriad yn datgan nad yw'r prawf hwn ond yn 'gosod safon addasrwydd isel iawn', yn rhannol oherwydd absenoldeb gofyniad am sgiliau rheoli busnes.

Mae **paragraffau 10** i **16** yn diddymu'r holl ddarpariaethau sy'n ymwneud â'r Prawf Uned Fasnachol. Mae **paragraffau 17** a **18** yn dileu'r ddarpariaeth Prawf Addasrwydd gyfredol o wyneb Deddf 1986 fel y gellir nodi meini prawf newydd mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru, mewn perthynas â Chymru, (a'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr). Rhaid i'r meini prawf a nodir yn y rheoliadau 'ymdrin â gallu tebygol yr unigolyn i ffermio'r daliad yn fasnachol i safonau uchel o ran cynhyrchiant effeithlon ac o ran gofalu am yr amgylchedd'.

Mae'r meini prawf y gellir eu cynnwys wedi eu rhestru, ac maent yn debyg i'r prawf presennol, ond maent yn cynnwys meini prawf sy'n ymwneud â phrofiad, hyfforddiant neu sgiliau mewn amaethyddiaeth 'neu reoli busnes'. Mae'r Tribiwnlys yn dal i ystyried unrhyw sylwadau a roddwyd gan y landlord wrth bennu addasrwydd yr ymgeisydd. Mae'r Memorandwm Pwerau Dirprwyedig yn esbonio y bydd manylion y Prawf Addasrwydd newydd yn cael eu datblygu mewn ymgynghoriad â thenantiaid a landlordiaid, a'u hadolygu'n rheolaidd i gyd-fynd â datblygiadau mewn gwaith a arweinir gan ddiwydiant ar ddatblygiad proffesiynol parhaus a sgiliau ffermio.

Ochr yn ochr â'r darpariaethau hyn ar gyfer y Prawf Addasrwydd, mae **Paragraff 13** hefyd yn cymhwyso'r gofyniad presennol bod yn rhaid i olynydd fod wedi gweithio ar y daliad am bump o'r saith mlynedd diwethaf. Mae'r testun newydd yn

nodi y byddai unrhyw amser a dreuliodd yr ymgeisydd mewn addysg uwch neu addysg amser llawn yn ystod y cyfnod hwn o saith mlynedd yn cael ei drin fel pe bai wedi bod yn gweithio ar y daliad, hyd at dair blynedd ar y mwyaf.

## Darpariaethau eraill

Mae **paragraff 8** yn diwygio Atodlen 2 i Deddf 1986 i wneud yn glir y dylai unrhyw gyflafareddwr neu drydydd parti ddiystyru taliadau gan denant i landlord am welliannau cynhyrchiant mewn anghydfod ynghylch adolygu rhent. Roedd yr ymgynghoriad ar ddiwygio tenantiaeth yn egluro y gallai hyn 'helpu i ddatgloi buddsoddiad landlordiaid' a gwella cynhyrchiant. Heb y newid hwnnw nododd yr ymgynghoriad bod modd ar hyn o bryd ystyried unrhyw daliadau y cytunwyd arnynt rhwng y landlord a'r tenant fel rhwymedigaeth y denantiaeth a gellir eu hystyried yn berthnasol mewn adolygiad rhent.

Mae **paragraff 9** yn ymdrin â newidiadau i'r oedran pensiynadwy trwy ddiwygio rhan o Atodlen 3 i Deddf 1986 sy'n ymdrin â hysbysiadau i derfynu tyddynnod awdurdodau lleol o dan *Ddeddf Amaethyddiaeth 1970*. Mae'r diwygiad yn pennu nad oes angen cydsyniad y Tribiwnlys ar gyfer hysbysiadau o'r fath pan fydd tenant wedi cyrraedd oedran pensiynadwy, yn hytrach na phan fydd yn troi'n 65 oed fel y nodir ar hyn o bryd.

Mae **paragraffau 19 a 20** yn diddymu darpariaethau Deddf 1986 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r tenant sy'n ymddeol beidio â bod yn iau na 65 oed er mwyn i berson a enwir yn yr hysbysiad ymddeol allu gwneud cais i olynu'r denantiaeth. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi y bydd hyn yn golygu y gellir gwneud ceisiadau am olyniaeth ar ôl ymddeol ar unrhyw oedran yn y dyfodol. Roedd yr ymgynghoriad ar ddiwygio tenantiaeth yn pwysleisio y byddai cael gwared ar yr isafswm oedran o 65 yn caniatáu trosglwyddo daliadau yn gynt, gan esgor ar welliannau cynhyrchiant posibl.

Mae **paragraff 21** yn gwneud diwygiadau i Adran 94 o Ddeddf 1986 i ychwanegu cyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru wrth nodi'r gweithdrefnau seneddol sydd i'w dilyn wrth wneud rheoliadau a gorchmynion.

## Tystiolaeth rhanddeiliaid ar Fil 2019-21 a chasgliadau'r Pwyllgor NAMG

Ar y cyfan, roedd y cyfranwyr yn croesawu'r darpariaethau a oedd yn anelu i ddiwygio tenantiaethau amaethyddol. Dywedodd TFA Cymru ei fod yn cefnogi'r holl newidiadau a wneir, ond bod angen gwella rhai agweddau. Nododd TFA Cymru nifer o gynigion yn ei gyflwyniad ysgrifenedig ynghylch gwelliannau i Fil y DU.

Nododd TFA Cymru fod Llywodraeth Cymru  wedi ymgynghori ar gynigion eang ar gyfer diwygio tenantiaethau, ond dim ond rhai o'r cynigion a gyflwynwyd ym Mil y DU. Roedd pryderon ymhlith y cyfranwyr na wnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei hymateb i'r ymgynghoriad ac, o ganlyniad, nid oedd y bwriadau ehangach ar gyfer diwygio tenantiaethau'n eglur.

**Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylai'r Gweinidog gyhoeddi'r ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar denantiaethau amaethyddol.**

Dywedodd FUW wrth y Pwyllgor fod cwmpas i Fil ar wahân yng Nghymru i ymdrin á thenantiaethau amaethyddol. Cytunodd CLA Cymru, gan ychwanegu bod ehangder y Bil cyfredol yn golygu ei bod yn annhebygol y ceir trafodaeth drylwyr ynghylch tenantiaethau.

**Daeth y pwyllgor i'r casgliad y dylai'r Gweinidog ymateb i'r farn a fynegwyd gan y rhanddeiliaid bod tenantiaethau amaethyddol angen Bil Senedd ar wahân yn y dyfodol.**

Nododd NFU Cymru na wyddys eto sut y byddai'r newidiadau yn y Bil yn cyd-fynd â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy y mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnig ar ôl Brexit, gan roi pwyslais ar gyflawni nwyddau cyhoeddus.

Pwysleisiodd y cyfranwyr y gall fod yn anodd yn aml i ffermwyr tenant gael caniatâd y landlord i wneud gwaith neu weithgareddau penodol ar y fferm, gan eu hatal rhag cymryd rhan mewn cynlluniau nwyddau cyhoeddus. Y rheswm dros hyn yw'r gwrthdaro creiddiol rhwng effeithiau cynlluniau o'r fath a gofynion landlordiaid i gadw tir mewn cyflwr amaethyddol da.

Wrth drafod y darpariaethau sy'n galluogi tenant i edliw ymwrthodiad gan landlord i roi ei ganiatâd i gymryd rhan mewn cynllun a gyflwynir o dan darpariaethau cymorth ariannol y Bil neu i wneud gwaith yn unol â rhwymedigaeth statudol, nododd TFA Cymru na fyddant ond yn gymwys i denantiaeth a gaiff eu rheoleiddio gan *Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986*. Roedd yn pryderu na fydd y darpariaethau hyn yn ymestyn i denantiaethau a reoleiddir gan *Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995*.

**Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylai'r Gweinidog egluro'r rhesymeg dros y darpariaethau ym Mil y DU sy'n gymwys i ddaliadau Deddf 1986 ond dim daliadau Deddf 1995. Dylai'r Gweinidog nodi ei barn o ran a ddylai'r darpariaethau gael eu hestyn i gynnwys daliadau Deddf 1995.**

## Adran 2 - Dadansoddiad o'r darpariaethau a drosglwyddwyd o Fil 2017-2019

### Rhan 4 - Materion yn ymwneud â ffermio a chefn gwlad (yr ardoll cig coch)

Mae **cymal 33**, sy'n ymwneud â'r ardoll cig coch, yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru a Gweinidogion yr Alban (fel y bo'n briodol) i sefydlu cynllun ar y cyd sy'n ei gwneud yn ofynnol i fyrddau ardoll ym Mhrydain Fawr ailddosbarthu ardollau rhyngddynt.

### Cefndir

Ffi yw'r **ardoll cig coch** y mae pob cynhyrchwr neu laddwr yn ei thalu pan mae'n lladd anifail (neu'n ei allforio'n fyw). Telir yr ardoll i'r bwrdd ardoll perthnasol ym mhob gwlad i'w ddefnyddio ar gyfer marchnata a hybu cynhyrchion cig y wlad honno. Mae'r wlad y telir ei hardoll yn dibynnu ar ba wlad y mae'r anifail yn cael ei ladd ynddi. Yng Nghymru, telir yr ardoll i Hybu Cig Cymru, sy'n cael ei ariannu'n bennaf trwy'r ardoll.

Mae pobl wedi bod yn feirniadol o'r ardoll yn y gorffennol gan nad yw'n ystyried da byw sy'n cael ei gynhyrchu mewn un gwlad ac yna'n cael ei ladd mewn gwlad arall; telir yr arian i'r bwrdd ardoll yn y wlad y mae'n cael ei ladd ynddi, ni waeth o ble y daw. Y bwriad yw y bydd y Bil yn galluogi'r rhai sy'n buddsoddi mewn gwaith bridio a magu da byw i elwa o'r ardoll a gesglir mewn perthynas â'u da byw, hyd yn oed os yw'r ardoll yn cael ei chasglu gan ladd-dy mewn gwlad arall ym Mhrydain Fawr.

### Bil 2017-19

Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud â'r ardoll cig coch wedi'u trosglwyddo o Fil 2017-19. Cafodd y ddarpariaeth hon (Rhan 8) ei chynnwys fel gwelliant y cytunwyd arno gan Bwyllgor Biliau Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin.

Ystyriodd y Pwyllgor NHAMG y gwelliant hwn yn ei adroddiad Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol. Roedd y Pwyllgor yn croesawu i'r ardoll cig coch gael ei ailddosbarthu, ond nododd (casgliad 1).:

> Rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i beidio â defnyddio'r cynnydd mewn derbyniadau a ddaw yn sgil ailberchnogi'r lefi i gymryd lle'r cyllid presennol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i Hybu Cig Cymru.

**Ymatebodd y Gweinidog** gan ddweud:

> Nid wyf yn bwriadu defnyddio'r gwaith o ddiwygio'r system Ardoll Cig Coch i newid y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn ariannu gweithrediadau Hybu Cig Cymru.

## Rhan 6 - Sefydliad Masnach y Byd: Cytundeb ar Amaethyddiaeth

Mae Rhan 6 (Cymalau 40-42) yn ymwneud â chydymffurfiad â Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth. Mae'n rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol benderfynu'n derfynol ar ddosbarthiad cymorth ariannol ar draws y DU; pennu terfynau gwario ar gyfer y DU gyfan; pennu terfynau uchaf unigol ar gyfer cymorth ar draws y gweinyddiaethau datganoledig; a chreu gwahanol derfynau uchaf ar draws y gweinyddiaethau datganoledig.

Mae'r Rhan hon hefyd yn amcanu i sicrhau bod y DU yn gallu cyflawni ei rhwymedigaethau i wneud yr hysbysiadau sy'n ofynnol o dan y Cytundeb Amaethyddiaeth ac ymateb i unrhyw heriau gan aelodau eraill o Sefydliad Masnach y Byd.

Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod y darpariaethau hyn yn faterion sydd wedi'u cadw yn ôl. O'r herwydd, nid yw'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol. Fodd bynnag, mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil 2019-2021 yn nodi:

> Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn am eu bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag amaethyddiaeth ac yn ymwneud â gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol yn ddomestig.

### Cefndir

Mae **Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth** yn gytundeb rhyngwladol sy'n nodi nifer o reolau ac ymrwymiadau cyffredinol o ran yr arferion masnach amaethyddol a gytunwyd gan aelodau Sefydliad Masnach y Byd. Mae'r mesurau hyn yn dod o dan dair colofn:

- disgyblaethau ar gymorth domestig;
- mynediad i'r farchnad; a
- chymorthdaliadau allforio.

Mae'r UE yn aelod o Sefydliad Masnach y Byd, ac mae'r DU hefyd yn aelod ynddo'i hun. O'r herwydd, mae'r UE a'r DU ill dau wedi llofnodi'r Cytundeb ar Amaethyddiaeth a bydd y DU yn parhau i fod yn ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiadau a rhwymedigaethau o dan y Cytundeb hwnnw. Bydd Llywodraeth y

DU yn gyfrifol am sicrhau bod holl bolisïau cymorth domestig (cymorthdaliadau) y DU yn cydymffurfio â Sefydliad Masnach y Byd.

Yng ngeiriad Sefydliad Masnach y Byd, nodir cymorthdaliadau ar ffurf **blychau** gan ddefnyddio lliwiau goleuadau traffig. Defnyddir y 'blwch ambr' ar gyfer cymorthdaliadau sy'n ystumio masnach a'r broses gynhyrchu ac y dylid eu cyfyngu (mae'r DU wedi ymrwymo i **Fesur Cymorth Cyfunol**). Yn fras, ni all cymorthdaliadau'r 'blwch gwyrdd' ystumio masnach na chynnwys cymorth prisiau, felly nid yw'r cymorthdaliadau hynny'n gyfyngedig. Gellir ystyried y cymorthdaliadau 'blwch glas' i ymdebygu i'r 'blwch ambr ond gydag amodau'. Er enghraifft, gallai fod cyfyngiad ar gynhyrchu i leihau ystumiadau masnach. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw derfynau ar y cymorthdaliadau blwch glas. Nid yw'r Cytundeb ar Amaethyddiaeth yn cynnwys unrhyw gymorthdaliadau 'blwch coch' sydd, mewn sectorau eraill, yn dynodi cefnogaeth a waherddir. Mae mwy o gefndir ar y Cytundeb i'w gael mewn **erthygl blog gan Ymchwil y Senedd.**

Mae pwerau Sefydliad Masnach y Byd ym Mil 2019-2021 yn amcanu i sicrhau bod pob cynllun cymorth yn cael ei ddosbarthu'n gywir gan ddilyn system 'blychau' Sefydliad Masnach y Byd. Os ydynt yn syrthio o fewn y blwch ambr, dylai'r pwerau sicrhau nad yw'r DU yn torri ei hymrwymiad Mesur Cymorth Cyfunol.

## Bil 2017-19

Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud â chydymffurfiad â Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth wedi'u trosglwyddo o Fil 2017-19. Pennodd Llywodraeth y DU fod y cymal perthnasol (cymal 26 yn y Bil fel y'i cyflwynwyd a chymal 28 fel y'i diwygiwyd) yn fater wedi'i gadw yn ôl, yn yr un modd â Bil 2019-21.

Ar ôl cyflwyno'r Bil, **dywedodd y Gweinidog** fod Llywodraeth Cymru yn anghytuno â Llywodraeth y DU ynghylch y graddau yr oedd cymal Sefydliad Masnach y Byd wedi ei gadw'n ôl. Roedd y datganiad yn pwysleisio'r berthynas gref rhwng pwerau Sefydliad Masnach y Byd a chyfrifoldebau datganoledig ar gymorth amaethyddol. Yn ystod hynt Bil 2017-2019, cytunodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar fecanwaith llywodraethu ar gyfer defnyddio pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol sydd yng nghymal Sefydliad Masnach y Byd, "**fel bod buddiannau pob rhan o'r DU yn cael eu hystyried yn llawn".** Cafodd y mecanwaith llywodraethu hwn ei godio yn y **Cytundeb Dwyochrog rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar ddarpariaethau Sefydliad Masnach y Byd yn y Bil Amaethyddiaeth,** Mawrth 2019, ('y Cytundeb Dwyochrog').

Yn ôl Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol Llywodraeth Cymru, mae'r

Cytundeb Dwyochrog yn darparu "mecanweithiau cryf i Weinidogion Cymru roi eu barn".

Yn adroddiad cyntaf y Pwyllgor NHAMG ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, codwyd pryderon rhanddeiliaid ynghylch goblygiadau cymal Sefydliad Masnach y Byd, a'i botensial i gyfyngu ar Lywodraeth Cymru mewn meysydd datganoledig. Dywedodd y Pwyllgor NHAMG (casgliad 19:

> Rydym o'r farn y dylid mynd i'r afael â hyn naill ai drwy welliant i Fil y Deyrnas Unedig neu, ar y lleiaf, gytundeb ffurfiol wedi ei gyhoeddi rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, cyhoeddwyd y Cytundeb Dwyochrog a rhoddwyd sylw i'r Cytundeb hwnnw yn adroddiad Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol y Pwyllgor NHAMG:

> Er gwaethaf y sicrwydd pellach a roddwyd gan y Gweinidog, nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod y Cytundeb hwn yn ddigon cadarn i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hystyried neu eu diogelu'n briodol.
>
> Rydym yn nodi honiad y Gweinidog bod y Cytundeb Dwyochrog yn rhoi mwy na rôl ymgynghorol i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r rheoliadau drafft... Fodd bynnag, mae'n wir o hyd mai'r Ysgrifennydd Gwladol fydd â'r gair olaf ar y rheoliadau drafft, ac yn y pen draw, mater i Senedd y DU fydd penderfynu cymeradwyo'r rheoliadau ai peidio. O ystyried barn Llywodraeth Cymru bod darpariaethau Sefydliad Masnach y Byd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, a'r potensial i'r darpariaethau hyn rwystro Llywodraeth Cymru mewn maes cymhwysedd datganoledig, nid yw'n briodol yn ein barn ni.

O ystyried y pryderon hyn, a'r ffaith nad oedd y cytundeb yn gyfreithiol rwymol daeth y Pwyllgor NHAMG i'r casgliad (sef casgliad 2) (gyda'r pwyslais wedi'i ychwanegu):

> Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Lywodraeth y DU gytuno i **ddiwygio'r Bil** i fynd i'r afael â phryderon y Pwyllgor.

**Ymatebodd y Gweinidog** gan ddweud bod Llywodraeth Cymru wedi sicrhau'r 'rôl gryfaf bosibl' i Weinidogion Cymru wrth ddefnyddio'r pwerau. Aeth ymlaen i ddweud: 'a unilateral veto over the power to make WTO regulations would be difficult for the UK Government to concede, since it has the responsibility for representing the nations of the United Kingdom at the WTO'.

Nid yw Bil 2019-21 wedi'i ddiwygio i roi'r Cytundeb Dwyochrog ar wyneb y Bil. Cyfeirir at y Cytundeb Dwyochrog ym Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil 2019-21:

> Mae anghytundeb o hyd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch a yw cymal Sefydliad Masnach y Byd wedi'i gadw'n gyfan gwbl. Fodd bynnag, daethpwyd i gytundeb dwyochrog i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig cyn cyflwyno rheoliadau o dan y pŵer hwn.

Rhoddodd Tim Render, Prif Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru, **dystiolaeth i Bwyllgor Biliau Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin** ar 13 Chwefror 2020. Pan ofynnwyd iddo a yw Llywodraeth Cymru eisiau i'r Bil ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar ddarpariaethau Sefydliad Masnach y Byd, dywedodd:

> Yes, we would love a consent [sic] provision, but in the context of the last Bill we came to a bilateral agreement between the UK Government … and the Welsh Government on how the provisions would be operated in practice. The Minister has confirmed to us that that agreement will be carried over with this Bill.

Pan ofynnwyd iddo a yw Llywodraeth Cymru eisiau gofyniad i ymgynghori ar wyneb y Bil dywedodd:

> We would be happy with that, yes. That is essentially our way of working, but if it is written in the text, that would be even stronger.

### Tystiolaeth rhanddeiliaid ar Fil 2019-21 a chasgliadau'r Pwyllgor NHAMG

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranwyr eu bod yn parhau i fod â phroblemau sylweddol am y darpariaethau yn y Bil. Yn achos NFU Cymru, roedd y Bil yn golygu y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol gyflwyno 'cyfyngiadau artiffisial' ar wariant amaethyddol yng Nghymru, a thrwy hynny 'gyfyngu' ar ddewisiadau polisi Cymru.

Dywedodd FUW nad oes dim gofyniad i osod lleiafswm gwariant o dan flychau Sefydliad Masnach y Byd. Gallai hyn arwain at wahaniaethau rhwng gwledydd y DU o ran dyraniadau i amaethyddiaeth, gan achosi anghydbwysedd i'r farchnad. Roedd yn credu y dylai hyn gael ei wneud drwy ddiwygio'r Bil i alluogi i rheoliadau gael eu cyflwyno, yn dilyn ymgynghoriad a chytundeb rhwng pedair gwlad y DU, gan bennu trothwyon lleiafswm a mwyafswm gwariant mewn perthynas â meysydd polisi penodol.

**Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylai'r Gweinidog roi diweddariad ynghylch unrhyw drafodaethau y mae wedi eu cael â'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch diwygio'r Bil i gryfhau'r cytundeb dwyochrog.**

## Rhan 1, Atodlen 5 - Cymorth ariannol ar ôl ymadael â'r UE

Mae Rhan 1, **Atodlen 5** yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru barhau â Thaliadau Uniongyrchol yng Nghymru o dan y Cynllun Taliadau Sylfaenol ar ôl 2020 (Paragraffau 1-3). Mae'r pwerau hyn yn dod i ben ddiwedd 2024 (Rhan 7, cymal 44).

Bydd Rheoliadau'r UE ar Daliadau Uniongyrchol yn cael eu trosglwyddo  i'r gyfraith ddomestig fel 'cyfraith yr UE a ddargedwir' o dan *Ddeddf Ymadael â'r UE 2018*. Mae cyfraith yr UE yn gymwys o ddiwedd y Cyfnod Pontio ymlaen.

Mae'r Rhan hon o Fil 2019-2021 yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru addasu cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â'r Cynllun Taliadau Sylfaenol ac mae'n cynnwys pwerau i symleiddio neu wella'r Cynllun Taliadau Sylfaenol neu i derfynu **taliadau gwyrdd** (Paragraff 2).

Fel y'u drafftiwyd yn wreiddiol, roedd y pwerau hyn ar gael i symleiddio neu wella'r Cynllun Taliad Sylfaenol. Cafodd paragraff 2 ei **ddiwygio yn Nhŷ'r Cyffredin** i fanylu ar bum diben y gellid addasu'r ddeddfwriaeth ar eu cyfer.

Mae'r Rhan hon hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau, mewn perthynas â Chymru, sy'n addasu cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â threfniadau ariannu, rheoli a monitro'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Paragraff 4).

Mae hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n addasu cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer datblygu gwledig (Paragraff 5). Gellir defnyddio'r pŵer naill ai i ddiddymu'r ddeddfwriaeth honno neu i symleiddio neu wella'r ffordd y mae deddfwriaeth o'r fath yn gweithredu.

Diwygiwyd **Paragraff 5** yn Nhŷ'r Cyffredin:

- i ehangu pwerau i wneud Deddfwriaeth drwy ddiddymu'r cyfyngiadau uchod, fel y gellid addasu'r ddeddfwriaeth hon o ran ei heffaith ar Gymru;
- i wneud y pwerau yn y rheoliadau yn amodol ar y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol, yn hytrach na'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

Mae Llywodraeth Cymru yn amlinellu ei bwriad o ran y cymal hwn yn ei Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol i – "estyn cynlluniau a phrosiectau y tu hwnt i Raglen Datblygu Gwledig bresennol 2014-2020 neu gynnal cynllun Cymreig domestig cyfatebol".

Mae'r fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer cymorth i ffermydd a ddarperir gan Fil 2019-21 yn gymwys ar ôl 2020.

## Cefndir

Ystyr Taliadau Uniongyrchol yw'r taliadau cymorth incwm y mae ffermwyr y DU yn eu derbyn ar hyn o bryd o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin, a delir allan o gyllideb yr UE. Cânt eu rheoleiddio yn bennaf o dan **Reoliad yr UE ar Daliadau Uniongyrchol**. Mae'r rheoliad hwn yn gosod y **Cynllun Taliadau Sylfaenol** sy'n gweithredu o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Mae Aelod-wladwriaethau'r UE yn teilwra gweithrediad y cynllun hwn i'w hamgylchiadau eu hunain o fewn y paramedrau a ganiateir. Yn y DU, mae gweithrediad y Polisi Amaethyddol Cyffredin wedi'i ddatganoli a gweinyddir y cronfeydd gan y llywodraethau cenedlaethol. Mae'r taliadau'n seiliedig yn bennaf ar faint o dir y mae ffermwr yn berchen arno, yn hytrach nag ar faint y maent yn ei gynhyrchu er mwyn osgoi cymell gorgynhyrchu. I fod yn gymwys i gael taliadau, rhaid i ffermwyr fodloni rhai safonau penodol o ran rheoli'r amgylchedd, lles anifeiliaid ac olrhain (a elwir yn 'drawsgydymffurfio').

Nid oedd Taliadau Uniongyrchol yr UE i ffermwyr yn gymwys yn ystod Cyfnod Gweithredu 2020 o dan y Cytundeb Ymadael. Mae Taliadau Uniongyrchol yn 2020, ledled y DU, yn dod o dan y darpariaethau a ddeddfwyd yn ddiweddar yn **Neddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020.** Mae hyn yn caniatáu i daliadau yn 2020 barhau yn ddomestig yr un fath ag o dan gynlluniau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin mewn blynyddoedd blaenorol. Mae **erthygl blog Ymchwil y Senedd** yn cynnwys manylion pellach. Ar ôl 2020, darperir ar gyfer parhad Taliadau Uniongyrchol o dan Fil 2019-21.

## Bil 2017-19

Roedd Atodlen 3, Rhan 2 o Fil 2017-19 hefyd yn cynnwys pwerau ar gyfer parhad Taliadau Uniongyrchol. Fodd bynnag, roedd yn cynnwys pwerau yn ymwneud â 'dad-gysylltu' Taliadau Uniongyrchol, eu diddymu'n raddol a'u terfynu, a chyfnod trosglwyddo o saith mlynedd; **mae'r pwerau hyn wedi'u dileu ym Mil 2019-2021.**

Cafodd y pwerau trosiannol hyn o fewn Bil 2017-19 eu cynnwys i wneud lle i system newydd ar gyfer cymorth rheoli tir yng Nghymru a byddai darpariaeth ar gyfer system o'r fath o dan Ran 1, Atodlen 3: 'Pwerau cymorth ariannol newydd'. Nid yw'r pwerau eang hyn wedi cael eu trosglwyddo i Fil 2019-2021.

Yn ei adroddiad Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil 2017-2019, pwysleisiodd y Pwyllgor NHAMG yr angen i ddeddfwriaeth barhau â threfniadau Taliadau Uniongyrchol i gynnig sicrwydd ar ôl Brexit (casgliad 2). Fodd bynnag, un o'r prif feysydd a berai bryder oedd bod Rhan 1, Atodlen 3 ar bwerau cymorth

ariannol newydd yn cael ei hystyried yn Senedd y DU yn hytrach na'r Cynulliad. Dywedodd y Pwyllgor NHAMG mai'r 'ffordd fwyaf priodol o ddeddfu ar bwnc mor arwyddocaol â dyfodol amaethyddiaeth yng Nghymru yn y tymor hir yw drwy Fil Cynulliad'.

Dywedodd y Gweinidog fod angen y dull hwn oherwydd y pwysau ar amserlen ddeddfwriaethol y Cynulliad. **Pwysleisiodd** fod Bil y DU yn drefniant trosiannol ac y byddai Bil Cymru yn cael ei gyflwyno yn ddiweddarach. Gofynnodd y Pwyllgor NHAMG am gynnwys cymal machlud yn y Bil i weithredu'r trefniadau trosiannol hyn (casgliad 4). Derbyniodd y Gweinidog yr argymhelliad hwn gan awgrymu cymal machlud ar 31 Rhagfyr 2024. Fel y trafodwyd, mae Bil 2019-2021 yn cynnwys cymal machlud (Cymal 44) ar gyfer Atodlen 5 a osodwyd ar gyfer diwedd 2024.

Teimlai'r Pwyllgor NHAMG hefyd na fu asesiad effaith neu ddatblygiad cynllun peilot digonol cyn i'r penderfyniad gael ei wneud i gael gwared ar Daliadau Uniongyrchol yn raddol (casgliad 11). Galwodd y Pwyllgor ar i Lywodraeth Cymru egluro ei bwriad o ran pryd y dechreuir trosglwyddo a beth fydd yn ei olygu i'r sector yn ymarferol (casgliad 10). **Nid yw Llywodraeth Cymru hyd yma wedi cyhoeddi llinell amser ar gyfer trosglwyddo i'r cynlluniau newydd yng Nghymru.**

Yn ei **adroddiad (Ionawr 2019)**, nododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad fod y broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn amhriodol i'w hystyried ar gyfer Bil sy'n 'trosglwyddo pwerau helaeth i Weinidogion Cymru i ddatblygu polisïau arwyddocaol ac wrth wneud hynny mae'n atal gwaith craffu manwl gan Aelodau'r Cynulliad'.

**Yn ei datganiad ar gyflwyniad y Bil**, trafododd y Gweinidog y mater o gael gwared ar y cymalau i gyflwyno system cymorth amaethyddol newydd yng Nghymru ym Mil 2019-2021, a chyfeiriodd at adroddiadau'r Cynulliad (pwyslais wedi'i ychwanegu):

> O gofio bod cryn amser wedi mynd heibio ers i'r Bil gael ei gyflwyno gyntaf ym mis Medi 2018, **rwyf wedi ystyried cwmpas yr atodlen ar gyfer Cymru, gan gyfeirio at yr adroddiadau defnyddiol a ddarparwyd gan y Senedd yn ystod y broses graffu. Rwyf wedi dod i'r casgliad nad yw bellach yn briodol cymryd pwerau a fyddai'n caniatáu i Weinidogion Cymru redeg neu newid i gynlluniau newydd.** Fy mwriad bellach yw darparu ar gyfer hynny mewn Bil Amaethyddiaeth (Cymru). Rwy'n bwriadu cyhoeddi Papur Gwyn tua diwedd 2020 a fydd yn amlinellu'r cyd-destun ar gyfer dyfodol ffermio yng Nghymru ac yn paratoi'r ffordd ar gyfer Bil Amaethyddiaeth (Cymru).

### Tystiolaeth rhanddeiliaid ar Fil 2019-21 a chasgliadau'r Pwyllgor NHAMG

Ar y cyfan, roedd y cyfranwyr yn croesawu'r pwerau i Weinidogion wneud newidiadau i'r Cynllun Taliadau Sylfaenol yn hytrach na chyflwyno cynlluniau amaethyddol newydd. Roedd nifer yn pwysleisio'r angen i fod yn ofalus cyn symud i ffwrdd o'r system gymorth hon tuag at unrhyw gynlluniau dilynol arfaethedig.

## Rhan 2, Atodlen 5 – Ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol

Mae Rhan 2, Atodlen 5 Bil 2019-21 yn caniatáu i Weinidogion Cymru:

- wneud datganiad os ydynt o'r farn bod "amodau eithriadol i'r farchnad" (Paragraff 6);
- ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol os ydynt o'r farn bod amodau eithriadol i'r farchnad, sy'n gwarantu cymorth ariannol neu ymyrraeth (Paragraff 7); ac
- addasu pwerau o dan ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir sy'n darparu ar gyfer gweithredu mesurau ymyrraeth a chymorth cyhoeddus ar gyfer mecanweithiau storio preifat, mewn ymateb i amodau eithriadol y farchnad (Paragraff 8).

Mae "amodau eithriadol y farchnad" yn bodoli lle ceir (neu lle ceir bygythiad o) aflonyddwch difrifol mewn marchnadoedd amaethyddol, sydd, neu sy'n debygol o gael, effaith andwyol sylweddol ar gynhyrchwyr amaethyddol yng Nghymru o ran y prisiau ar gyfer eu cynnyrch.

Mae'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru yn Rhan 2 o Atodlen 5 yr un fath â'r pwerau ymyrraeth a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ran 2 o'r Bil mewn perthynas â Lloegr (Cymalau 18-20).

### Cefndir

Ar hyn o bryd mae'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn cynnwys ystod o fesurau cymorth i'r farchnad amaethyddol o dan Reoliad Cyd-drefniadaeth y Marchnadoedd. Mae'n fframwaith cyfreithiol cymhleth a ddarperir gan **Reoliad (Undeb Ewropeaidd) Rhif 1308/2013** sy'n cynnwys 232 o Erthyglau 'i sefydlogi'r marchnadoedd ac i sicrhau safon byw deg i'r gymuned amaethyddol'. Mae Cyd-drefniadaeth y Marchnadoedd yn cynnwys mesurau o ran ymyrraeth gyhoeddus a chymorthdaliadau ar gyfer storio cynhyrchion gan weithredwyr preifat (storio preifat).

Mae ymyrraeth yn golygu bod yr awdurdod cymwys yn yr Aelod-wladwriaeth yn prynu a storio'r cynhyrchion nes eu bod yn cael eu gwaredu. Mae storio cynhyrchion mewn storfa yn helpu i sefydlogi'r farchnad ar gyfer cynnyrch os oes gwarged gan achosi i brisiau wanhau. Yn ogystal, mae pwerau eang i'r UE sefydlogi marchnadoedd ar adegau o argyfwng. **Defnyddiwyd y pwerau hynny ar gyfer cynhyrchwyr y DU** i gynnig pecynnau cymorth i ffermwyr llaeth yn 2015 a 2016.

## Bil 2017-19

Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud ag ymyrraeth mewn marchnadoedd amaethyddol wedi'u trosglwyddo o Fil 2017-19. Clywodd y Pwyllgor NHAMG er bod rhanddeiliaid yn croesawu'r darpariaethau, roedd y pwerau i Weinidogion Cymru ddatgan "amodau eithriadol y farchnad" a darparu cymorth i'r sector yn rhai i'w defnyddio yn ôl disgresiwn. Mynegodd rhanddeiliaid eu bod yn ffafrio creu dyletswydd ar Weinidogion Cymru i weithredu.

Gofynnodd Cymdeithas Ffermwyr Tenant Cymru am sicrwydd y byddai "ffenomenau naturiol fel sychder, llifogydd ac afiechyd ynghyd â ffenomenau economaidd" yn gwarantu arfer y pwerau, yn ogystal ag anawsterau hirhoedlog.

Wrth egluro'r amgylchiadau lle gellir arfer y pwerau i ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol, **dywedodd swyddog Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor NHAMG:**

> Past examples have been some of the very extreme price fluctuations or extreme weather events that cause major short-term disruption.

Nododd Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru fod Bil 2017-19 yn cynnwys pwerau cyfatebol i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr. Roedd y Gymdeithas yn cwestiynu priodoldeb cynnwys pwerau ar wahân i Gymru a Lloegr, o ystyried bod gan y ddwy wlad gadwyn gyflenwi mor integredig, a mynegodd bryder y gallai "unrhyw benderfyniad unochrog i roi'r darpariaethau ar waith ystumio'r farchnad".

Awgrymodd **swyddog Llywodraeth Cymru** fod ymyrraeth mewn marchnadoedd amaethyddol yn faes amlwg lle bo angen fframwaith cyffredin y DU.

Roedd adroddiad Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Pwyllgor NHAMG yn cefnogi mewn egwyddor y darpariaethau sy'n ymwneud ag ymyrraeth mewn marchnadoedd amaethyddol. Fodd bynnag, nododd nad yw'n eglur sut mae

Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio'r pwerau sy'n cael eu ceisio (casgliad 21). Dywedodd y Pwyllgor 'Mae'r rhain yn bwerau gweithredol helaeth, a dylai Llywodraeth Cymru egluro eu pwrpas a'u heffaith arfaethedig'. Ymatebodd y Gweinidog drwy ddweud ei bod yn bwriadu darparu enghreifftiau o sut y gellid defnyddio'r darpariaethau. **Nid yw'r enghreifftiau hyn wedi'u darparu hyd yma.**

Dywedodd y Pwyllgor ei fod yn disgwyl i fframwaith cyffredin ar amaethyddiaeth yn y DU gwmpasu'r ffordd yr arferir pwerau i ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol (casgliad 22). Derbyniodd y Gweinidog yr argymhelliad hwn gan nodi bod 'cynnydd da yn cael ei wneud o ran datblygu'r fframweithiau cyffredin a fydd yn gwreiddio'r mathau newydd o gydweithredu rhynglywodraethol'. **Mae'r gwaith hwn ar fframweithiau cyffredin yn mynd rhagddo.**

**Tystiolaeth rhanddeiliaid ar Fil 2019-21 a chasgliadau'r Pwyllgor NHAMG**

Codwyd materion tebyg ynghylch Bil 2017-19. Ategodd TFA Cymru ei farn y dylai ffenomena amgylcheddol, yn enwedig o ystyried y llifogydd diweddar, arwain ar Weinidogion Cymru yn defnyddio eu pwerau i ymyrryd yn y farchnad.

Mynegodd FUW bryderon y gallai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fod â barn wahanol o ran beth fyddai'n cyfrif fel amodau eithriadol i'r farchnad. Awgrymodd FUW y gallai hyn gael ei liniaru drwy ychwanegu gofyniad yn y Bil i Weinidogion Cymru ac adrannau Llywodraeth y DU gydweithio mewn amgylchiadau o'r fath.

Awgrymodd TFA Cymru y dylid ceisio sicrwydd gan Lywodraeth Cymru y byddai'r darpariaethau yn gymwys nid yn unig i anawsterau 'acíwt' sy'n achosi amodau eithriadol i'r farchnad, ond hefyd i broblemau 'cronig' neu hirdymor, megis 'afiechyd endemig neu newidiadau strwythurol i'r marchnadoedd amaethyddol a all ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr wneud newidiadau sylweddol.

**Daeth y Pwyllgor i gasgliad cyffredinol y dylai'r Gweinidog ymrwymo y bydd yn rhoi drafft i'r Pwyllgor o is-ddeddfwriaeth yn deillio o Fil y DU, ac yn rhoi digon o amser i'r Senedd graffu ar yr is-ddeddfwriaeth.**

**Daeth y Pwyllgor i'r casgliad:**

> **Dylai'r Gweinidog nodi'r amgylchiadau lle mae'n rhagweld y defnyddid y pwerau mewn perthynas ag ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol. Ymhellach, dylai'r Gweinidog nodi pa fecanweithiau sydd ar waith i sicrhau bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cydweithio mewn amgylchiadau o'r fath. Dylai'r Gweinidog hefyd nodi a fydd y darpariaethau'n gymwys nid**

**yn unig dros y tymor byr, ond hefyd ar gyfer problemau hirdymor sy'n effeithio ar farchnadoedd amaethyddol.**

## Rhan 3, Atodlen 5 – Casglu a rhannu data

Mae Rhan 3, Atodlen 5 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno gofynion newydd i'r sawl sy'n rhan o'r gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth ddarparu gwybodaeth mewn perthynas â'r gadwyn gyflenwi honno. Mae'n nodi pwy sy'n cael eu cynnwys i'r perwyl hwn a'r dibenion y gellir prosesu gwybodaeth ar eu cyfer. Mae'r dibenion penodedig yn cynnwys; helpu ffermwyr a chynhyrchwyr i gynyddu lefelau cynhyrchiant; helpu cynhyrchwyr i reoli risg ac anwadalrwydd y farchnad; a chefnogi iechyd a threfniadau olrhain anifeiliaid a phlanhigion.

Mae'r rhain yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol darparu gwybodaeth benodol (paragraff 9(1)), gwneud rheoliadau i gasglu gwybodaeth (paragraff 9(2)) a gorfodi gofyniad i ddarparu gwybodaeth (Paragraff 14(1)) .

Gosodir dyletswydd newydd ym Mil 2019-21 i Weinidogion Cymru gyhoeddi gofyniad i ddarparu data ar ffurf drafft cyn iddynt gael eu cwblhau (Paragraff 12).

Bwriad y cymal hwn yw gwneud y broses o gasglu data trwy'r gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth yn fwy tryloyw a gwella'r ffordd caiff y wybodaeth hon ei lledaenu.

Mae'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru yn Rhan 3 o Atodlen 5 yr un fath â'r pwerau casglu a rhannu data a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ran 3 o Bennod 1 o Fil 2019-21 mewn perthynas â Lloegr (cymalau 21 i 26).

### Cefndir

Bu galwadau am nifer o flynyddoedd i gryfhau sefyllfa ffermwyr a chynhyrchwyr bwyd mewn perthynas â'r gadwyn gyflenwi. Mae **Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr wedi dweud** bod bwlch yn nata'r farchnad mewn rhannau o'r gadwyn gyflenwi, yn enwedig ar ochr y prosesydd-brynwr, ac mae hyn yn "tarfu ar ymddiriedaeth, trefniadau cydweithio a datblygu offer rheoli risg y farchnad".

### Bil 2017-19

Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud â chasglu a rhannu data wedi'u trosglwyddo o Fil 2017-19. **Fel y trafodwyd, mae'r ddyletswydd ym Mil 2019-21 i Weinidogion Cymru gyhoeddi gofyniad i ddarparu data ar ffurf drafft cyn iddynt gael eu cwblhau yn un newydd o'i gymharu â Bil 2017-19. Yn ogystal, mae gofyniad**

**ychwanegol i ddarparu gwybodaeth at ddibenion cynnal iechyd y pridd (yn ogystal â phlanhigion a ffyngau).**

Yn ystod ei waith yn ystyried Bil 2017-19, clywodd y Pwyllgor NAMG fod cynrychiolwyr y sector amaethyddol yn cefnogi'r pwerau ar y cyfan fel ffordd o wella tryloywder o fewn y gadwyn gyflenwi. Fodd bynnag, nodwyd mai pwerau disgresiwn ydynt ac, o'r herwydd, nid oedd unrhyw rwymedigaeth ar Weinidogion Cymru i barhau i wneud yr hyn sy'n ofynnol o dan reoliad yr UE. Galwodd y Pwyllgor am eglurhad pellach gan Lywodraeth Cymru ar sut y byddai'r pwerau'n cael eu defnyddio (casgliad 21). Fel y trafodwyd yng nghyd-destun Rhan 2, ymatebodd y Gweinidog drwy ddweud ei bod yn bwriadu darparu enghreifftiau o sut y gellid defnyddio'r darpariaethau. **Unwaith eto, nid yw'r enghreifftiau hyn wedi'u darparu hyd yma.**

Mynegodd y Pwyllgor NHAMG bryderon yn ei adroddiad am y goblygiadau ymarferol i ffermydd llai WRTH fodloni unrhyw ofynion gwybodaeth. Noda'r Pwyllgor y bydd yn bwysig sicrhau nad yw unrhyw ofynion yn y dyfodol yn rhy feichus i'r ffermwyr hyn. **Ni roddodd y Gweinidog sylw i'r pwynt hwn yn ei hymateb.**

**Tystiolaeth rhanddeiliaid ar Fil 2019-21 a chasgliadau'r Pwyllgor NHAMG**

Rhybuddiodd FUW y gallai gwahaniaeth mewn gofynion casglu a rhannu data mewn gwahanol rannau o'r DU arwain at faentumio marchnad fewnol y DU drwy osod rhwystrau ychwanegol ar rai cynhyrchwyr. Awgrymodd y byddai Gweinidogion Cymru angen cydweithio'n agos â gweinyddiaethau i sicrhau unffurfedd.

## Rhan 4, Atodlen 5 – Safonau marchnata a dosbarthu carcasau

Mae Rhan 4, Atodlen 5 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau:

- mewn perthynas â safonau marchnata presennol ynghylch ansawdd cynhyrchion amaethyddol a gwybodaeth am gynnyrch i gwsmeriaid yng Nghymru. Nod y rhan hon yw teilwra a moderneiddio safonau marchnata presennol o ran ansawdd cynhyrchion amaethyddol; ac
- ynghylch trefniadau dosbarthu, adnabod a chyflwyno carcasau buchol, moch a defaid mewn lladd-dai yng Nghymru. Bydd hyn yn galluogi i'r dosbarthiadau hyn gael eu diweddaru mewn ffordd dechnegol. Mae'r dosbarthiadau'n ceisio sicrhau tryloywder ac effeithlonrwydd y farchnad trwy sefydlu safonau gorfodol ar gyfer manyleb a graddio carcasau.

Mae'r pwerau hyn yn cynnwys gallu Gweinidogion Cymru i ddiwygio neu ddirymu'r safonau marchnata a'r rheolau dosbarthu carcasau presennol fel y'u nodir yn neddfwriaeth yr UE a ddargedwir ac mewn deddfwriaeth ddomestig. Maent hefyd yn darparu hyblygrwydd i gyflwyno safonau a rheolau newydd a gaiff eu teilwra i weddu i'r sectorau amaethyddol domestig.

Mae'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru yn Rhan 4 o Atodlen 5 yr un fath â'r pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan gymalau 35 a 38 o'r Bil, ac Atodlen 4 o'r Bil mewn perthynas â Lloegr.

**Pleidleisiwyd yn Nhŷ'r Cyffredin yn erbyn** gwelliant i'r Bil i sicrhau bod cynhyrchion a gaiff eu mewnforio i'r DU yn cydymffurfio â rheolau diogelwch Sefydliad Masnach y Byd (WTO) a safonau'r DU ei hun, o dan gytundebau masnach yn y dyfodol.

## Cefndir

Ar hyn o bryd mae'r DU yn gweithio i ystod o safonau marchnata'r UE ar gyfer cynhyrchion amaethyddol, sydd wedi'u cynllunio i warantu ansawdd. Mae'r safonau hyn wedi'u pennu yn **Rheoliad Cyd-drefniadaeth y Marchnadoedd**. Mae'r gofynion yn amrywio yn ôl cynnyrch, ac mae'r amrywiad hwn yn rhoi ystyriaeth i agweddau fel: ffresni, maint a chyflwyniad.

Mae'r mecanwaith Dosbarthu Carcasau yn un sydd wedi'i gynllunio i sicrhau tryloywder ac effeithlonrwydd y farchnad trwy sefydlu safonau gorfodol ar gyfer manyleb a graddio carcasau. Mae rhagor o wybodaeth am ddosbarthu carcasau **i'w chael yma.**

### Bil 2017-19

Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud â safonau marchnata a dosbarthu carcasau wedi'u trosglwyddo o Fil 2017-19. Fel y trafodwyd, gall Gweinidogion Cymru ddarparu'r safonau y mae'n rhaid i rai 'cynhyrchion' gydymffurfio â nhw. Mae paragraff 16, Rhan 4 o Atodlen 5 Bil 2019-21 yn wahanol i'r adran gyfatebol o Fil 2017-19 (Paragraff 22, Rhan 5, Atodlen 3). **Mae rhai cynhyrchion nad ydynt i'w gweld ym Mil 2019-21 –** roedd 'cynhyrchion cig a llysiau wedi'u prosesu', 'bananas' a 'planhigion byw' wedi'u rhestru ym Mil 2017-19. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i addasu'r rhestr o gynhyrchion.

Yn ei adroddiad Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil 2017-19, nododd y Pwyllgor NHAMG alwadau gan randdeiliaid i Fil 2017-19 gynnwys

mesurau diogelwch i sicrhau nad yw safonau yn cael eu tanseilio gan fewnforion mewn unrhyw drefniadau masnach yn y dyfodol. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad gan Lywodraeth Cymru ar unrhyw drafodaethau a gynhaliwyd â Llywodraeth y DU ar y mater hwn (gweler y blwch 'Ein barn ni', tudalen 63). **Ni chafodd y pwynt hwn ei drafod yn ymateb y Gweinidog. Nid oes mesurau diogelwch o'r fath wedi'u cyflwyno i Fil 2019-2021.**

> Roedd y Pwyllgor hefyd yn credu nad yw Llywodraeth Cymru wedi darparu gwybodaeth i egluro'n fanwl y dibenion y bydd yn defnyddio'r darpariaethau ar eu cyfer (casgliad 21). Fel y trafodwyd ar gyfer Rhan 2 a 3, ymatebodd y Gweinidog drwy ddweud ei bod yn bwriadu darparu enghreifftiau o sut y gellid defnyddio'r darpariaethau. **Unwaith eto, nid yw'r enghreifftiau hyn wedi'u darparu hyd yma.**

Amlygodd y Pwyllgor NHAMG (casgliad 22) yr angen am gydweithrediad a chytundeb rhwng cenhedloedd y DU ar gyfer safonau iechyd anifeiliaid drwy fecanwaith rhynglywodraethol. Fel y trafodwyd ar gyfer Rhan 2, ymatebodd y Gweinidog drwy ddweud bod 'cynnydd da' yn cael ei wneud o ran datblygu'r fframweithiau cyffredin. **Mae trafodaethau ynghylch fframweithiau cyffredin y DU yn mynd rhagddynt.**

**Tystiolaeth rhanddeiliaid ar Fil 2019-21 a chasgliadau'r Pwyllgor NHAMG**

Roedd y rhanddeiliaid yn dal i alw i'r Bil gynnwys mesurau diogelu i sicrhau nad yw safonau bwyd yn gwaethygu yn sgil mewnforion mewn unrhyw drefniadau masnach yn y dyfodol.

**Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylai'r Gweinidog egluro a yw'n credu bod angen i'r Bil gael ei ddiwygio i gynnwys mesurau diogelu i sicrhau nad yw safonau'r farchnad yng Nghymru yn gwaethygu yn sgil mewnforion mewn unrhyw drefniadau masnach yn y dyfodol. Ymhellach, dylai'r Gweinidog roi diweddariad ar unrhyw drafodaethau y mae wedi eu cael á Llywodraeth y DU i'r perwyl hwn.**

**Daeth y Pwyllgor hefyd i'r casgliad y dylai'r Gweinidog roi diweddariad ynghylch y cynnydd o ran datblygu fframweithiau cyffredin y DU o ran safonau iechyd anifeiliaid.**

## Rhan 5, Atodlen 5 - Diogelu data

Mae'r rhan hon yn newydd o Fil 2017-19. Mae'n gwneud darpariaeth sy'n drech yn statudol i bennu y bydd unrhyw ddefnydd o ddata a wneir gan Weinidogion Cymru yn cael ei wneud yn unol â'r rheolau GDPR. Mae'r pwerau hyn yn adlewyrchu'r rhai sydd ar gael i Ysgrifennydd Gwladol Lloegr o dan gymal 46 o'r Bil.



